

**Infected Blood**

Compensation Authority



# Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig

Argymhellion Syr Robert Francis KC i'r Llywodraeth  
ar y cynigion ar gyfer cynllun iawndal

Awst 2024

# Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	2
Cyflwyniad	4
Datblygu'r cynigion a'r ymgysylltiad	6
Taliadau'r cynllun cymorth	13
Bandiau difrifoldeb	23
Dyfarniad Effaith Gymdeithasol	32
Tariffau	37
Iawndal cosbol	38
Dyfarniad ymreolaeth	39
Dyfarniadau gofal	42
Dyfarniadau colled ariannol	49
Hawliadau sy'n ymwneud â phobl heintiedig ymadawedig a'u hystadau	54
Cyfyngiadau oedran ar gyfer plant a brodyr a chwiorydd	58
Trethi	60

Diddordeb	61
Cymorth cyfreithiol	62
Cymorth seicolegol	64
Cyngor ariannol a chymorth arall	65
Effaith cydraddoldeb	67
Atodiad A: Rhestr o Argymhellion	68
Datblygu'r cynigiona'r ymgysylltu	68
Taliadau cynllun cymorth	69
Bandiau difrifoldeb	70
Dyfarniad Effaith Gymdeithasol	71
Tariffau	71
Dyfarniad ymreolaeth	72
Dyfarniadau gofal	72
Dyfarniadau colled ariannol	73
Hawliadau sy'n ymwneud â phobl heintiedig ymadawedig a'u hystadau	74
Cyfyngiadau oedran ar gyfer plant a brodyr a chwiorydd	75
Trethi	75
Cymorth cyfreithiol	75
Cyngor ariannol a chymorth arall	76
Effaith cydraddoldeb	76
Atodiad B: Cynnig y Llywodraeth y gofynnwyd i mi ymgysylltu ag ef	77

# Crynodeb Gweithredol

Cyhoeddwyd fy astudiaeth wreiddiol i fframwaith iawndal ar 7 Mehefin 2022. Yn yr astudiaeth hon, dywedais:

"Mae penderfyniad cynifer i'm helpu yn y gwaith yr wyf wedi cael fy nghomisiynu i'w wneud wedi bod yn wirioneddol emosiynol, ac mae wedi bod o gymorth mawr wrth fy arwain tuag at yr hyn rwy'n gobeithio yw dechrau llwybr at ddarparu'r cymorth ariannol a'r cymorth arall y mae ei angen arnynt yn fawr, ac y maent wedi bod yn aros mor hir amdano."

Nid oes dim o'u penderfyniad wedi'i golli, a phob un ohonynt yn gweithio gyda'r bwriad o gael y cyfiawnder y mae ganddynt hwy a'u cymuned hawl iddo. Yn anffodus, mae dwy flynedd arall o aros wedi mynd heibio, ond diolch i ymdrechion llawer, mae cynnydd wedi'i wneud o'r diwedd tuag at gyflawni cynllun a fydd yn darparu'r iawndal y maent yn ei geisio. O ystyried y cefndir, rwy'n croesawu cynnig y Llywodraeth flaenorol am gynllun iawndal a chais y Llywodraeth flaenorol fy mod yn gofyn i'r gymuned o bobl heintiedig yr effeithiwyd arnynt beth yw eu barn am y cynllun.

Mae'n bwysig cydnabod bod y rhan fwyaf o argymhellion fy staff a Syr Brian Langstaff wedi eu hadlewyrchu yn y cynnig. Er mwyn bod yn fyr, ni fyddaf yn disgrifio yn yr adroddiad hwn yr holl elfennau sy'n cyfateb i'r argymhellion hynny. Os na sonnir am elfen o'r cynllun hwn, mae naill ai oherwydd ei fod yn cyfateb yn ddigonol â'r hyn a awgrymwyd, neu na chafodd ei godi gan bobl yn ystod y cyfnod ymgysylltu. Rwy'n annog y rhai sy'n darllen y cynnig a'r adroddiad hwn i beidio â chwilio am berffeithrwydd, nac i fynnu bod holl fanylion yr argymhellion blaenorol wedi eu hadlewyrchu'n fanwl yn y cynigion.

Dylid eu barnu ar sail a ydynt yn debygol o ddarparu iawndal eithaf teg a chymesur i'r rhai sydd â hawl iddo. A dweud y gwir, nid yw amser yn caniatáu chwiliad hir am berffeithrwydd ac oedi, sef rhywbeth sydd bellach wedi'i wahardd gan y Senedd, ac na fyddai ond yn ychwanegu at boen a gofid y rhai sy'n dal i aros i wybod beth sydd gan y dyfodol ariannol iddynt.

Mae'r cynnig, o reidrwydd, yn hir ac yn gymhleth. Mae'n rhaid iddo ystyried y bobl niferus sydd wedi cael eu heintio neu y mae hyn wedi effeithio arnynt - a'u hamgylchiadau lluosog. Mae'n dilyn, felly, nad yw fy adroddiad na rhestr fy argymhellion yn fyr. Maent yn cynrychioli'r problemau y dywedodd pobl wrthyf eu bod yn eu gweld gyda'r cynllun. Rwy'n gobeithio bod fy argymhellion yn cynrychioli rhai ffyrdd synhwyrol o ddatrys y problemau hynny.

Mae rhestr gynhwysfawr o'm hargymhellion yn atodiad A. Yn y crynodeb gweithredol hwn, rwy'n crynhoi'r themâu a'r meysydd allweddol y maent yn eu cwmpasu. Yn benodol, mae fy argymhellion yn anelu at sicrhau:

- Bod pobl yn cael eu galluogi i barhau i dderbyn eu taliadau cymorth presennol mewn fformat y maent yn ei gydnabod yn ogystal ag iawndal sydd, gyda'i gilydd, yn rhoi cydnabyddiaeth mor briodol o'u hanaf a'u colled ag y gall arian ei ddarparu;
- Y darperir digon o fanylion ac esboniadau ar y cynnig a phan fydd wedi'i setlo'n derfynol, manylion y cynllun, fel y gall pobl ei ddeall a chael gwell syniad o'r hyn y maent yn debygol o'i dderbyn;
- Gan y dylem ddysgu o'r profiad o wneud cais i'r cynllun a'i weithredu, dylid cynnal adolygiad ar ôl blwyddyn o weithredu'r cynllun;

- Cyflwynir band difrifoldeb ychwanegol sy'n cyfateb i'r SCM neu fesur cyfatebol;
- Dylai gosod ymchwil anfoesegol gael ei adlewyrchu gan ddyfarniad ychwanegol am golli ymreolaeth i'r rhai a oedd yn gysylltiedig heb gydsyniad gwybodus, yn enwedig y rhai a oedd yn blant ar y pryd;
- Fe'i gwneir yn gwbl glir bod taliadau cymorth ac iawndal yn ddi-dreth ac ni ddylid eu hystyried wrth asesu hawl rhywun i fudd-daliadau;
- Dylai cyllid ar gyfer cymorth cyfreithiol a chynghor ariannol fod ar gael i'r rhai y mae iawndal yn ddyledus iddynt.

Mae'r ymarfer ymgysylltu a'r adroddiad hwn yn amherffaith. Ychydig iawn o amser oedd ar gael ar gyfer gwneud y gwaith hwn. Cyfyngwyd yn ddifrifol arno gan yr amser gofynnol i baratoi'r rheoliadau yr oedd eu hangen i sefydlu'r cynllun erbyn y dyddiad cau ar 24 Awst a bennwyd gan y Senedd. Mae graddau'r ymgysylltu a ganiateir hefyd wedi'u cyfyngu gan gyfyngiadau hirsefydlog ar yr hyn y mae'n bosibl ei gyhoeddi yn ystod cyfnod cyn etholiad. Rwy'n difaru hynny. Fodd bynnag, er mwyn symud y cynllun ymlaen ar gyfer pawb sydd wedi bod yn aros mor hir amdano, ac i gydnabod bod y rhan fwyaf o'r hyn sydd ei angen yn bresennol yng nghynnig y cynllun, rwy'n cyflwyno fy argymhellion ar gyfer ystyriaeth y Llywodraeth ar sut y gallent wella'r cynllun ac ymateb i'r pryderon a fynegwyd gan y cymunedau heintiedig ac yr effeithiwyd arnynt.

**Syr Robert Francis KC**  
12 Gorffennaf 2024

# Cyflwyniad

Ar ôl fy mhenodi'n gadeirydd dros dro yr Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig, a ddaeth i fodolaeth gan Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024, cytunwyd y dylwn gynnal ymgysylltiad â'r cymunedau heintiedig ac yr effeithiwyd arnynt, ystyried y cynigion ar gyfer y cynllun ac adrodd ar yr adborth a gefais a'm hargymhellion ynghylch y cynigion. Yr hyn sy'n dilyn yw fy adroddiad ar ganlyniad y broses honno.

Rwy'n mynd i'r afael â rhai o heriau'r dasg honno yn yr adran ganlynol, ond hoffwn egluro rhai casgliadau cyffredinol am y cynigion a'r ffordd ymlaen ar ddechrau'r adroddiad hwn.

Mae'r fframwaith cyffredinol yn ganlyniad ymgais wirioneddol i gyflawni, yn yr amser sydd ar gael, fanylion cynllun sy'n cyd-fynd mewn ysbryd â'r argymhellion yn fy adroddiad fframwaith ac argymhellion Syr Brian sy'n deillio o hynny. Mae'n darparu modd credadwy o gynnig symiau sylweddol – ac mewn sawl achos – symiau sy'n newid bywydau i bobl sydd wedi'u heintio ac yr effeithiwyd arnynt gan y sgandal ofnadwy hon.

Mae'n anorfod mewn cynllun o'r fath na fydd ei fanylion yn bodloni'n llwyr yr holl fuddiannau oherwydd bod rhaid cynnal cydbwysedd rhwng cydnabod unigolrwydd pob achos mor agos ag sy'n ymarferol ac anghenion pawb ar gyfer datrys eu hawl i iawndal cyn gynted a mor syml â phosibl. Dim ond trwy gymryd ymagwedd eang at lawer o faterion y gellir cyflawni cydbwysedd o'r fath, a fyddai, wrth ymglyfreitha, yn destun cymhlethdod sylweddol. Byddai datrys yr holl gymhlethdodau hynny yn y math hwn o gynllun yr un mor llethol i ymgeiswyr ag y byddai ar gyfer gweinyddu'r cynllun ei hun.

Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynllun fod ar waith erbyn 24 Awst 2024. Yn syml, mae'n anymarferol gwrthod y cynigion yn eu cyfanrwydd

– nid oes amser i ddechrau eto heb achosi niwed enfawr i'r rhai sy'n ceisio ac sydd â hawl i iawndal. Beth bynnag, gan fod y cynigion yn fy marn i yn cyflawni eu hamcan i raddau helaeth, nid oes angen gwneud hynny. Yr hyn a allai fod yn ddoeth, fodd bynnag, yn yr amser byr iawn sydd ar gael, yw archwilio rhai materion penodol o ran manylion y gellid eu newid i wella'r canfyddiad o degwch, gwell cydnabyddiaeth o amgylchiadau unigol, rhwyddineb prosesu ceisiadau, dealltwriaeth y cynllun a'r rhesymeg sy'n sail i'r cynllun.

Cefais fy mhenodi'n Gadeirydd dros dro yr Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig newydd ar 21 Mai 2024. Cytunais â'r Dirprwy Brif Weinidog ar y pryd, Oliver Dowden, ei bod yn bwysig ymgysylltu â'r cymunedau heintiedig ac yr effeithiwyd arnynt ar gynigion y Llywodraeth. Ar y pryd deallwyd y byddai'r Bil Dioddefwyr a Charcharorion yn derbyn Cydysniad Brenhinol yng Ngorffennaf, a fyddai wedi golygu y byddai'r terfyn amser tri mis ar gyfer gwneud y rheoliadau i sefydlu'r cynllun wedi dod i ben ym mis Medi. Fodd bynnag, ar 23 Mai 2024 galwyd etholiad cyffredinol. Er mwyn cael ei basio cyn diddymu'r Senedd, rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol y Ddeddf ar 24 Mai 2024, sy'n golygu y syrthiodd y dyddiad cau statudol ar gyfer gosod y rheoliadau gofynnol ar 24 Awst 2024. Felly, gostyngwyd y cyfnod ymgysylltu a'r amser ar gyfer drafftio rheoliadau cymhleth yn sylweddol, ac yn ymarferol roedd hyn yn golygu bod yn rhaid adrodd canlyniadau'r ymgysylltu nawr. Yn ogystal, cyfyngodd yr arfer sy'n llywodraethu cyhoeddiadau yn ystod cyfnod etholiad ar fanylion yr hyn y gallai swyddogion ei gyhoeddi mewn perthynas â'r cynllun arfaethedig.

Yn ystod y cyfnod ymgysylltu, cwrddais â 36 o grwpiau cynrychioliadol, ac ar 3 Gorffennaf rwyf wedi derbyn tua 160 o gyflwyniadau ysgrifenedig gan grwpiau ac unigolion cynrychioliadol.

Er bod yr amodau ar gyfer ymgysylltu yn bell o fod yn ddelfrydol, rwy'n fodlon bod y broses wedi cyrraedd ystod gynrychioliadol o'r rhai sy'n debygol o allu hawlio iawndal.

Bydd yn anymarferol cyfeirio at bob pwynt a wneir yn y cyfarfodydd a'r cyflwyniadau hyn ar wahân heb wneud yr adroddiad hwn yn amhosibl o hir. Byddaf yn ymdrin â'r hyn sy'n ymddangos fel y prif themâu yn y pryderon sydd wedi'u mynegi. Os na chrybwyllir pwynt yn yr adroddiad, y rheswm am hynny yw oherwydd fy mod yn teimlo y byddai Swyddfa'r Cabinet yn mynd i'r afael yn well ag ef, ar ran y Llywodraeth sy'n cynnig y cynllun hwn, i ateb yn uniongyrchol.

Hoffwn ddod â'r cyflwyniad hwn i ben trwy fynegi fy asesiad o'r rhai sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgysylltiad rwyf wedi'i gynnal a'm gwerthfawrogiad ohonynt.

Yn gyntaf, er gwaethaf eu hamheuon dealladwy am natur y broses, mae'r grwpiau cynrychioliadol sydd wedi mynychu digwyddiadau ymgysylltu ar fy ngwahoddiad wedi ymateb mewn modd hynod drawiadol ac adeiladol. Unwaith eto, mae llawer o'r rhai sy'n mynychu wedi gorfod ailadrodd ac ail-fyw profiadau y byddai'n well ganddynt eu rhoi y tu ôl iddynt ac maent wedi gwneud pwyntiau pwysig ar ran nid eu hunain yn unig hunain ond hefyd llawer o rai eraill. Fel y gwnaethant yn ystod fy adolygiad fframwaith, maent wedi gwneud hynny'n gydwybodol, yn gwrtais ac ag urddas mawr. Nid oedd hyn ddi-gost iddynt yn bersonol o ran y straen, a'r gofid o orfod gwneud hyn, fel y byddent yn ei weld eto. Rwyf hefyd yn ddiolchgar iawn i'r holl unigolion hynny sydd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig, yr wyf wedi'u hystyried. Os nad wyf wedi cytuno neu ddeall yn gywir yr hyn y maent wedi'i roi i mi, nid yw hynny oherwydd unrhyw ddiffyg ymdrech ar eu rhan, ond fy nghyfrifoldeb i yn unig ydyw. Ni allaf ond ceisio dangos y diolchgarwch hwnnw trwy eu sicrhau bod eu pryderon wedi'u clywed a bod yr adroddiad hwn wedi'i drosglwyddo i'r Llywodraeth. Ni allaf ond gobeithio y bydd ymateb y Llywodraeth yn arwain at ailadrodd yr ymateb cadarnhaol a gafodd llawer i gyhoeddi Adroddiad yr Ymchwiliad.

Yn ail, hoffwn ei gwneud yn glir fy mod yn gwbl fodlon bod y grŵp cynghori arbenigol y mae'r cynigion ar gyfer y cynllun wedi'u seilio arnynt o dan amgylchiadau heriol, wedi gweithio gyda diwydrwydd cydwybodol, annibyniaeth barn a didwylledd da. Drwy'r Athro Montgomery maent wedi ymgysylltu'n adeiladol â mi i ystyried ac adolygu pwyntiau a wnaed iddynt a lle maent wedi meddwl ei bod yn briodol ymgymryd ag ef i adolygu eu hargymhellion. Rwyf yn ddiolchgar am hynny Wrth gwrs, mater i'r Llywodraeth yw penderfynu a ddylid derbyn unrhyw argymhellion, boed y rhain wedi'u gwneud gan y grŵp arbenigol neu gennyf i.

Yn drydydd, hoffwn fynegi fy niolch i'r tîm sy'n gweithio i'm cefnogi yn yr IBCA a swyddogion Swyddfa'r Cabinet sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith o lunio polisi'r Llywodraeth. Ar bob adeg maent wedi fy helpu gydag esboniadau, wedi cynnig adnoddau yn ôl y gofyn ac wedi cynnig cymorth yn amyneddgar wrth gwrdd â'r holl heriau a roddwyd ar eu ffordd drwy orfod cyflawni eu dyletswyddau yn y cyfnod cyn etholiad cyn etholiad cyffredinol.

Yn olaf, wrth ddod i'r casgliadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, fy amcan oedd nodi sut y gellir ymgorffori ymddiriedaeth yn y cynllun arfaethedig er mwyn iddo fod yn ffordd deg a chymesur o ddigolledu dioddefwyr am yr hyn y gellir ei ddisgrifio yn briodol fel y sgandal waethaf yn hanes y GIG. Yn anffodus, mae'n amlwg o'r adborth a gefais fod ymddiriedaeth o'r fath yn absennol ar hyn o bryd. Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd yr argymhellion rwy'n eu gwneud yn mynd rhywfaint o'r ffordd i ganiatáu i ymddiriedaeth o'r fath dyfu. Bydd yn parhau i fod yn ddyletswydd ddifrifol ar yr IBCA i weithredu'r cynllun fel y penderfynir yn y diwedd gan y Llywodraeth yn y rheoliadau y mae'n rhaid eu gosod erbyn 24 Awst.



**Syr Robert Francis KC**  
12 Gorffennaf 2024

# Datblygu'r cynigion a'r ymgysylltu

## Pryderon a fynegwyd gan gyfranwyr i'r ymgysylltu

Yn ystod yr ymarfer ymgysylltu, thema gyson ym mhob cyfarfod a gefnogir gan sylwadau a wnaed gan eraill yn ysgrifenedig, oedd anfodlonrwydd â'r broses y cyhoeddwyd y cynigion dan ystyriaeth drwyddi. Dywedwyd wrthyf ym mhob cyfarfod, pan gyhoeddwyd ar 21 Mai, fod adroddiad yr Ymchwiliad wedi ei dderbyn â chymeradwyaeth, a hyd yn oed yn llawen, a theimlad ymhlith y gymuned heintiedig ac yr effeithiwyd arni bod eu cwynion niferus wedi cael eu clywed a'u derbyn. Fy argraff i yw eu bod yn hapus bod yr Ymchwiliad wedi cyflawni'r cyfan y gallent fod wedi'i ddisgwyl drwy ddisgrifio'r camweddau a wnaed iddynt. Fodd bynnag, newidiodd yr hwyliau yn ddramatig ar y diwrnod canlynol pan ryddhawyd cynigion y Llywodraeth am iawndal. Dywedwyd wrthyf i'r rhain achosi gofid a phryder mawr a theimlwyd bod yr hyn a gyhoeddwyd yn llawer llai na'r disgwyliadau a godwyd gan ail adroddiad interim yr Ymchwiliad ar iawndal. Yn ystod fy nghyfarfodydd mynegwyd pryderon cryfion, yn eu plith:

- nad oeddent yn credu bod yr ymgysylltiad yn ymgais wirioneddol i gael adborth gan y gymuned ond yn 'ymarfer ticio blychau';
- nad oeddent wedi derbyn adroddiad llawn o'r cynigion na'r rhesymeg y tu ôl iddynt;
- nad oeddent wedi cael gwneud unrhyw gyfraniad i'r pwyllgor cynghori arbenigol;

- nad oedd y ddogfennaeth ychwanegol a roddwyd iddynt wrth baratoi ar gyfer y cyfarfod yn eu galluogi i ddeall sawl agwedd ar y cynigion;
- nad oeddent wedi cael digon o amser i gael cyngor ac ymgynghori â'r rhai yr oeddent yn eu cynrychioli.

Rwy'n dyfynnu o ddau gyflwyniad ysgrifenedig a dderbyniwyd, un gan sefydliad cynrychioliadol:

“Roedd gan y rheini a heintiwyd ac yr effeithiwyd arnynt gan waed a chynhyrchion gwaed llygredig lai na 24 awr i dreulio anferthedd adroddiad terfynol yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig cyn i'r Llywodraeth gyhoeddi ei gynllun iawndal.

Wrth i fanylion y cynllun ddechrau suddo i mewn, diflannodd y teimladau o orfoledd a chyfiawnhad a oedd wedi deillio o ganfyddiadau'r Ymchwiliad yn gyflym, i'w disodli gan emosiynau mwy cyfarwydd o amheuaeth ac ansicrwydd.

Roedd wedi digwydd eto. Roedd y llywodraeth wedi creu cynllun mawr heb un gair o ymgynghori â'r bobl y cafodd ei gynllunio i'w cefnogi. Mae'r ffordd flinedig y cafodd y cynllun hwn ei adeiladu yn frawychus.”



Ac un gan gyfreithiwr:

"Cyn gwneud y cyflwyniadau hyn am y Cynllun, roedd [y cyfreithiwr] am godi sawl ymholiad a phryder ynglŷn â'r un peth, yn benodol rydym yn gofyn am ragor o wybodaeth lle nad yw'r safbwynt yn glir o'r ddogfennaeth gyhoeddedig ynghylch y Cynllun. Hyd nes y bydd yr wybodaeth hon ar gael, ni all y Gymuned ymgysylltu'n ystyrlon â'r broses ymgynghori. Rydym yn pryderu y bydd y Cynllun (unwaith y bydd wedi'i gwblhau) yn cael ei wrthod heb yr ymgysylltiad ystyrlon hwn."

Yn fyr, fe wnaethant gwyno nad oeddent wedi cael eu cynnwys na'u hymgyngori'n briodol ac felly, nad oedd ganddynt unrhyw hyder nac ymddiriedaeth yn y cynigion.

## Cymhariaeth rhwng y broses a fabwysiadwyd ac argymhellion blaenorol

Mae'r broses sydd wedi arwain at gynhyrchu'r cynigion presennol wedi'i disgrifio uchod. Mae'n deg dweud nad yw hyn yn cyd-fynd â'r broses a argymhellir yn fy adroddiad, na chan Syr Brian yn ei ail adroddiad interim.

Yn fy adroddiad, argymhellais y dylai'r Llywodraeth nodi fframwaith o ddyfarniadau iawndal ar sail tariffau <sup>1</sup> o fewn y categorïau<sup>2</sup> a ddisgrifiais ar sail argymhellion gan ddau banel arbenigol annibynnol, un meddygol ac un cyfreithiol:

"Dylid nodi a diffinio natur y clefydau a'u camau gan, neu â chymorth panel meddygol arbenigol, o'r math a ddefnyddiwyd gan yr Ymchwiliad i'w gynghori. Dylai'r disgrifiad gynnwys disgrifiad o'r ystod o gyflyrau a symptomau y gellir eu dioddef. Dylid gofyn i'r panel meddygol ystyried pob clefyd ar wahân, a hefyd effaith gyfunol y ddau glefyd ar y rhai sydd wedi'u cydheintio. Byddai'n ddefnyddiol darparu digon o fanylion i alluogi asesiad a yw un clefyd yn gyffredinol fwy neu lai difrifol na'r llall o ran ei effaith ar fywydau dioddefwyr.<sup>3</sup>

Dylid pennu amrediad y dyfarniadau ar gyfer pob categori ar sail argymhellion gan banel arbenigol cyfreithiol annibynnol o farnwyr a chyfreithwyr sy'n brofiadol ym maes anafiadau personol. Dylid rhoi'r dasg iddynt ystyried categorïau, graddau o ddifrifoldeb a disgrifiadau o'r cyflyrau a'r symptomau cysylltiedig a ddisgrifir gan y panel meddygol arbenigol, ac wedyn atodi ystod o werthoedd i bob categori (trwy ddull yn unol â'r hyn a awgrymir isod). Dylai eu cynigion fod yn destun ymgynghoriad â dioddefwyr a'u cynghorwyr, a rhwng y paneli arbenigol."<sup>4</sup>

1 Adroddiad Astudiaeth Fframwaith Iawndal - 7 Mehefin 2022: Argymhelliad 10, tudalen 125.

2 Y categorïau a argymhellais oedd effaith anafiadau, effaith gymdeithasol, gofal, ymreolaeth, colled ariannol i bobl heintiedig, ac effaith anafiadau, effaith gymdeithasol, gofal teuluol, profedigaeth a cholled ariannol teuluoedd mewn profedigaeth.  
Adroddiad astudio'r Fframwaith Iawndal - 7 Mehefin 2022: Categorïau Dyfarniad ar gyfer y Rhai yr Effeithiwyd arnynt, tudalennau 84-85

3 Adroddiad Astudiaeth Fframwaith Iawndal - 7 Mehefin 2022: tudalen 87.

4 Adroddiad Astudiaeth Fframwaith Iawndal - 7 Mehefin 2022: tudalen 89.

O ran y dyfarniad effaith anafiadau:

"Byddai'n rhaid i'r panel cyfreithiol ystyried, yn seiliedig ar y disgrifiad o effaith pob clefyd ar ddiodefwyr a ddarperir gan y panel meddygol, i ba raddau y dylid cydnabod unrhyw wahaniaeth mewn difrifoldeb rhwng pob clefyd gan wahanol ystodau o ddyfarniad."<sup>5</sup>

Tynnais sylw at ffynonellau amrywiol a allai lywio'r gwaith o nodi ystodau priodol o ddyfarniad effaith anafiadau, gan gynnwys canllawiau'r Coleg Barnwrol yr oedd rhannau ohonynt ynghlwm wrth yr adroddiad, dyfarniadau barnwrol, a thariffau ar gyfer iawndal anafiadau troseddol. Derbyniais na ellid ond cyrraedd amrediad o ddyfarniadau ar sail argraffiadol.<sup>6</sup> Wedyn nodais rai ffigurau eglurhaol fy hun ond pwysleisiais bwysigrwydd cael set ehangach o farnau gan arbenigwyr:

"Mae'n rhaid i mi bwysleisio bod y ffigurau hyn wedi'u cynnwys at ddibenion eglurhaol yn unig er mwyn dangos dull o gyrraedd ffigurau safonedig. Rwyf wedi cymryd yn ganiataol bod y paneli meddygol a/neu gyfreithiol yn ystyried bod un o'r clefydau yn cael mwy o effaith na'r llall, ac yn unol â hynny ystod uwch na'r llall. Pe bai'n cael ei benderfynu nad oedd hynny'n wir, yn amlwg byddai'r grid yn symlach. Os bydd yn rhaid asesu achos penodol yn yr ystod ar sail hanes gwirioneddol profiad yr hawliwr, yr amser y maent wedi'i ddiodef a gellir disgwyl iddo ei ddiodef yn y dyfodol, ac amgylchiadau penodol yr achos.

Rwyf wedi cyrraedd ystodau ar gyfer pobl sydd wedi'u cyd-heintio â'r ddau glefyd trwy ychwanegu hanner yr amrediad ar gyfer y clefyd 'llai difrifol' i'r hyn a awgrymir ar gyfer gwerth y clefyd 'mwy difrifol'. Efallai y bydd panel arbenigol yn dod i'r casgliad bod cyfran wahanol wedi'i gyfiawnhau, yn dibynnu ar y farn a gymerwyd ynghylch graddfa'r symptomau sy'n gorgyffwrdd rhwng y ddau heintiad.

Mae'n rhaid i mi bwysleisio unwaith eto, fy mod wedi cynhyrchu'r grid hwn yn enghraifft o sut y gallai panel cyfreithiol annibynnol arbenigol fynd ymlaen i bennu ffigurau priodol Byddai'n hollol anghywir i mi, yn ymarferydd unigol, sydd bellach wedi ymddeol, geisio cyn y broses honno ragnodi rhywbeth o arwyddocâd o'r fath i ddiodefwyr y drasiedi hon."<sup>7</sup>

O ran dyfarniadau effaith gymdeithasol, argymhellais mai mater i'r paneli arbenigol ddylai fod y penderfyniad a oedd y stigma a'r unigedd cymdeithasol wedi creu profiad o wahaniaeth o ran sut y daliwyd y clefydau perthnasol ai peidio.<sup>8</sup> Awgrymais y gellid cynnwys dyfarniadau am golli cyfle i gael plant ac am golli rhagolygon priodas, lle bo'n berthnasol, yn y dyfarniad effaith gymdeithasol.<sup>9</sup>

O ran dyfarniadau gofal, wrth gynnig dull a oedd yn osgoi archwiliad manwl o'r oriau gofal a ddarparwyd, dylid annog hunanasesiad, ond â'r angen am hyn wedi'i gyfyngu gan 'ragdybiaethau safonedig wedi'u seilio ar arbenigwyr' ac amrediad y gellid ei rhagnodi gan y panel cyfreithiol mewn ymgynghoriad ag arbenigwyr gofal nyrsio priodol.<sup>10</sup>

5 Adroddiad Astudiaeth Fframwaith Iawndal - 7 Mehefin 2022: tudalen 90.

6 Adroddiad Astudiaeth Fframwaith Iawndal - 7 Mehefin 2022: tudalen 94.

7 Adroddiad Astudiaeth Fframwaith Iawndal - 7 Mehefin 2022: tudalen 94.

8 Adroddiad Astudiaeth Fframwaith Iawndal - 7 Mehefin 2022: tudalen 98.

9 Adroddiad Astudiaeth Fframwaith Iawndal - 7 Mehefin 2022: tudalennau 99-100.

10 Adroddiad Astudiaeth Fframwaith Iawndal - 7 Mehefin 2022: tudalennau 102-103.

Wedyn gellid defnyddio'r tabl tariff neu'r tablau sy'n deillio o hynny yn sail asesiad gan aseswyr y cynllun. Gellid mabwysiadu'r un dull ar gyfer creu matrices o dariffau ar gyfer y rhai yr effeithiwyd arnynt.<sup>11</sup>

O ran cyfranogiad defnyddwyr, pwysleisiais bwysigrwydd dysgu o brofiad y defnyddiwr mewn perthynas â rheoli'r cynllun ac unrhyw newidiadau y bwriedir eu gwneud iddo.<sup>12</sup>

Gwnaeth Syr Brian Langstaff yn glir fod y cyfan oedd ganddo i'w ddweud am gynllun iawndal i'w weld yn ei ail adroddiad interim. Yno, dywedodd ei fod gyda rhai addasiadau yn cytuno â'm hadroddiad. Ymhlith yr addasiadau oedd y ffordd yr oedd y cynllun i'w ddiffinio:

- Roedd y cynllun i'w weinyddu gan ALB fel yr oeddwn wedi argymhell, ond nododd mai'r Cadeirydd (a ddylai fod yn Farnwr Uchel Lys Cymru a Lloegr presennol neu yn y gorffennol, neu'r un sy'n cyfateb o'r Alban neu Ogledd Iwerddon) ddylai wneud y penderfyniadau. Roeddent i'w cynghori gan fwrdd cynghori bach, a ddylai gynnwys buddiolwyr y cynllun, a'r egwyddorion a fabwysiadwyd ganddo oedd bod yn gyhoeddus ac yn dryloyw.<sup>13</sup>
- Dylai fod gan yr ALB, meddai, ddau banel cynghori, meddygol a chyfreithiol, sy'n cynnwys arbenigedd perthnasol priodol. Roedd yn amlwg yn rhagweld mai'r paneli hyn fyddai'n cynghori ar y bandiau difrifoldeb a lefelau y dyfarniad:

**Gan fod y ddau banel yno i gynghori ar y cynllun bandio a lefelau dyfarnu sy'n briodol, ac os cânt eu mabwysiadu gan y Cadeirydd bydd eu barn yn cael effaith uniongyrchol ar fuddiolwyr y cynllun iawndal,**

**dylid disgwyl i'r paneli siarad, ymgysylltu â nhw ac ymgynghori'n eang â buddiolwyr. Mae cyfochredd â'r ymchwiliad hwn. Ei nod oedd rhoi pobl wrth ei galon a gall unrhyw un sydd wedi arsylwi ar yr achos hwn weld bod gwneud hynny wedi ychwanegu at ei ddealltwriaeth o'r hyn a ddigwyddodd a pham. Rwy'n credu bod eu profiadau wedi helpu i agor fy llygaid gan fod ganddynt lygaid eraill. Dylai'r profiadau hynny fod ar gael ar gam ffurfiannol o'r broses 'bandio a lefelau'.<sup>14</sup>**

- Argymhellodd Syr Brian hefyd y dylai cyfraddau iawndal fod yn seiliedig ar gyngor y paneli clinigol a chyfreithiol annibynnol a'u 'gosod gan y cynllun'.<sup>15</sup> Mae'r cyd-destun yn ei gwneud yn glir ei fod yn cyfeirio at y paneli i fod yn rhan o'r ALB ac roedd y cyfraddau i'w gosod ganddo.

Mae'r Llywodraeth wedi dewis llwybr gwahanol i bennu telerau'r cynlluniau, y rheolau ynghylch cymhwysedd a'r categorïau a'r cyfraddau dyfarnu. Penododd banel cynghori arbenigol o glinigwyr o dan gadeiryddiaeth yr Athro Syr Jonathan Montgomery a gafodd arbenigedd cyfreithiol gan gwmni o gyfreithwyr, Browne a Jacobson. Cafodd y grŵp hwn y dasg o wneud argymhellion ynghylch y cynllun i gyd-fynd ag argymhellion yr Ymchwiliad. Cynhyrchwyd cyngor y mae'r Llywodraeth wedi'i dderbyn i raddau helaeth fel y gellir ei weld o'r crynodeb atodol (atodiad B) o'u cynigion. Dim ond yn ddiweddar y datgelwyd pwy yw aelodau'r paneli, ac nid oedd cylch gorchwyl y grŵp yn caniatáu ymgysylltu â'r cymunedau heintiedig yr effeithiwyd arnynt. Nodwyd bod Browne Jacobson yn aelod o'r panel cyfreithwyr sy'n cynghori Penderfyniad y GIG ar hawliadau esgeulustod.

11 Adroddiad Astudiaeth Fframwaith iawndal - 7 Mehefin 2022: tudalen 110.

12 Adroddiad Astudiaeth Fframwaith iawndal - 7 Mehefin 2022: Argymhelliad 16, tudalen 138.

13 Ymchwiliad Gwaed Heintiedig, Ail Adroddiad Interim yr Ymchwiliad: tudalen 12.

14 Ymchwiliad Gwaed Heintiedig, Ail Adroddiad Interim yr Ymchwiliad: tudalen 22.

15 Ymchwiliad Gwaed Heintiedig, Ail Adroddiad Interim yr Ymchwiliad: Argymhelliad 8, tudalen 86.

Dylwn ddweud ar unwaith fy mod yn fodlon bod y grŵp cynghori a Browne Jacobson wedi gweithredu'n gwbl ddidwyll ac wedi ceisio cyflawni eu briff o geisio awgrymu'n ddiuedd gynllun sy'n cyd-fynd ag argymhellion yr Ymchwiliad.

## Effaith y gwahaniaeth o ran dull

Yn amlwg, hawl y Llywodraeth ydoedd ac ydyw i benderfynu a ddylid dilyn unrhyw argymhellion ymchwiliad ai peidio, yn enwedig, gellid meddwl, pryd mae swm mawr iawn o arian cyhoeddus yn y fantol. Fodd bynnag, mae'n deg arsylwi bod yr Ymchwiliad wedi gwneud beirniadaeth ddifrifol o ymateb y Llywodraeth i'r ail adroddiad interim<sup>16</sup> Yn anffodus, mae absenoldeb unrhyw gyfranogiad gan y cymunedau heintiedig ac yr effeithiwyd arnynt wrth geisio deall manylion cynigion y llywodraeth wedi gwaethygu eu drwgdybiaeth ddofn a'u diffyg hyder bod y cynigion yn cynrychioli ateb teg i'r anghyfiawnderau y maent wedi'u dioddef. Mae'r diffyg hyder hwn wedi'i waethygu drwy rannu manylion llawn y cynigion ychydig iawn cyn ein cyfarfodydd yn unig, a heb iddynt gael eu dosbarthu i'r gymuned gyfan. Mae rhai hyd yn oed wedi awgrymu, er mwyn i'r cynigion fod wedi cael eu cyhoeddi yn y modd hwn wedi ymddangos iddynt fod yn ailadrodd ymddygiad y Wladwriaeth wrth osod mesurau arnynt heb yn wybod iddynt, heb sôn am gydsynio.+ Rwyf wedi clywed cwynion gan gynrychiolwyr sefydliadau dioddefwyr nad ydynt wedi gallu cael barn wybodus eu haelodau, ac i'r graddau y rhyddhawyd y manylion i'r cyhoedd yn ehangach, mae'r dull hwn wedi achosi llawer o ddrwschwch a gofid.

Rwyf wedi gwneud y gorau y gallaf yn yr amser byr iawn a roddwyd imi, sef dim mwy na thair wythnos, i drefnu cyfarfodydd â'r sefydliadau hynny sydd, rhyngddynt, yn cynrychioli sbectrwm eang o'r rhai heintiedig ac yr effeithiwyd arnynt sy'n debygol o gael iawndal. Mynychwyd ein cyfarfodydd gan yr Athro Montgomery a chydweithwyr eraill a oedd yn gallu egluro meddylfryd y grŵp arbenigol. Roedd yn amlwg eu bod yn croesawu'r cyfle i siarad am lawer o bwyntiau yn y cynigion â phobl yn cyfleu profiad byw iddynt, a gwnaethant ymgymryd i ailystyried y rheini. Fodd bynnag, mae'r ymgysylltu a fu'n bosibl yn bell iawn o'r cyfranogiad a fu'n gysylltiedig â chreu'r cynllun a ragwelwyd naill ai yn fy adroddiad i neu yn adroddiad Syr Brian. Er bod rhai grwpiau wedi llwyddo i gynnal arolygon defnyddiol o'u haelodau, ni fu cyfle realistig i aelodaeth ehangach y grwpiau heintiedig a'r grwpiau yr effeithiwyd arnynt hysbysu, yn benodol, y diffiniad o'r bandiau difrifol, na'r amrediad o ddyfarniadau posibl yn y categorïau amrywiol. Nid syndod felly, fod amharodrwydd eang i dderbyn bod y cynigion yn cynnig iawndal a oedd yn bodloni'r amcan cyffredinol o ddarparu rhwymedi gan ystyried - ond heb fod yn gyfyngedig i hwn - yr iawndal y gellid ei ddyfarnu yn y llys. Fel y nodwyd fwy nag unwaith, canlyniad hyn yw ei bod yn debygol y gellir annog llawer i geisio dyfarniadau gan y llwybr atodol neu, yn waeth, i droi at ymgyreitha.

16 Ymchwiliad Gwaed Heintiedig, Adroddiad yr Ymchwiliad:Cyfrol 7 Ymateb y Llywodraeth.

Mae'n bosibl y bydd modd rhoi sicrwydd yn achos rhai pryderon. Ar ôl cwrdd â'r Athro Montgomery, rwy'n gwbl fodlon ei fod wedi arwain y grŵp arbenigol yn ddiwyll â'r bwriad o geisio llunio cynllun sy'n cyflawni'r amcanion a nodir yn fy adroddiad fframwaith fel y'i diwygiwyd gan adroddiad interim Syr Brian. Rwy'n siŵr y byddai'n cydnabod bod anallu ei grŵp i ryngweithio'n uniongyrchol â'r cymunedau heintiedig ac yr effeithiwyd arnynt yn anfantais; un y ceisiasant ei gywiro trwy gyfeirio at y dystiolaeth gyhoeddedig a gafwyd gan yr Ymchwiliad a'r profiad proffesiynol yn ymarfer y clinigwyr yn ei grŵp, y mae ei hunaniaethau wedi'u cyhoeddi erbyn hyn.

Er mwyn cwrdd â'r dyddiad cau statudol ar gyfer gosod y rheoliadau sy'n ofynnol i roi'r IBCA ar sail weithredol, fe'm hysbysir nad oes amser ar gyfer ymgysylltu ychwanegol. Mewn geiriau eraill, y cyfle nesaf i drafod y cynigion fydd pan drafodir y rheoliadau yn y Senedd. Ar yr adeg honno gellir eu derbyn naill ai'n gyfan gwbl, neu eu gwrthod. Ni fydd yn bosibl eu diwygio.

## Beth y gellir ei wneud i liniaru'r pryderon a godwyd?

Felly beth y gellir ei wneud i liniaru'r diffyg ymddiriedaeth sydd wedi'i ennyn gan y sefyllfa amlwg anfoddfaol hon? Dylwn ei gwneud yn glir, hyd y gwn i, nad oes unrhyw un wedi awgrymu y dylid ymestyn y dyddiad cau statudol o dri mis - hyd yn oed os yw'n ddamcaniaethol bosibl i'r Senedd gyflawni hynny. Mae'r dioddefwyr hyn eisoes wedi aros yn llawer rhy hir am gyfiawnder, ac mae'r amser wedi dod i'r IBCA fwrw ymlaen cyn gynted ag y bo modd â phrosesu hawliadau a dyfarniadau. A bod yn onest, ni fydd unrhyw gynllun iawndal yn gwbl lwyddiannus wrth wneud iawn am anafiadau pob dioddefwr unigol, gan sicrhau proses gymharol syml a hwylus. Ni ddylid caniatáu i ymdrech am berffeithrwydd fod yn elyn cyfiawnder cyffredinol.

## Argymhellion

Yn fy marn i, dylai'r mesurau canlynol helpu i liniaru'r diffyg hyder ac ymddiriedaeth wrth sefydlu'r cynllun:

1. Dylid mabwysiadu rhagor o dryloywder:
  - a. Dylid cyhoeddi adroddiadau llawn y grŵp cynghori a manylion llawn y cynigion yr ydym wedi bod yn eu hystyried ar unwaith.
  - b. Dylid hefyd gyhoeddi esboniad llawn o sut y dylid cyhoeddi'r ystodau a argymhellir o ran dyfarniadau, neu fformiwlâu ar gyfer dyfarniadau ariannol a gofal, gan gynnwys nodi unrhyw gymharyddion neu ystadegau y dibynnwyd arnynt.
  - c. Dylid cyhoeddi ymateb y grŵp arbenigol i'r pwyntiau a wnaed yn yr ymarfer ymgysylltu ac unrhyw addasiad ar eu hargymhellion blaenorol
  - d. Dylid cyhoeddi ymateb y Llywodraeth i'r argymhellion a wnaed gan y grŵp arbenigol ac yn yr adroddiad hwn hefyd cyn gynted â phosibl heb aros am gyhoeddi'r rheoliadau.
2. Bydd yr IBCA yn ymrwymo i fod yn dryloyw wrth wneud penderfyniadau wrth sefydlu'r prosesau ar gyfer derbyn ac asesu ceisiadau, a'r dyfarniadau a wneir, a bydd yn sefydlu mecanweithiau ar gyfer sicrhau bod hyn yn cael ei lywio gan gyfranogiad y cymunedau heintiedig ac yr effeithiwyd arnynt wrth eu llunio.

3. Argymhellaf fod darpariaeth wedi'i chynnwys yn y rheoliadau y dylid cynnal adolygiad o weithrediad y cynllun ar ôl blwyddyn. Dylai'r adolygiad hwn gynnwys a rhoi sylw i adborth ymgeiswyr y cynllun a derbynwyr dyfarniadau, a dylai ystyried a oes angen unrhyw newidiadau. Cyn belled ag y bo modd, dylai hyn ganolbwyntio ar faterion sydd wedi arwain at eithrio categorïau o ymgeiswyr, neu wrthod hawl i gategoriâu dyfarnu wedi'u diffinio yn hytrach nag ail-agor achosion lle mae dyfarniad eisoes wedi'i wneud.
4. Yn olaf, awgrymaf y bydd derbyniad cynnar a chyhoeddus o'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â pharhad taliadau cymorth, yn cyfrannu'n helaeth at bennu pryderon a godwyd yn y broses ymgysylltu.

# Taliadau cynllun cymorth

## Y cynnig

Dyma fy nealltwriaeth o gynnig y Llywodraeth o ran y berthynas rhwng taliadau cymorth yn y gorffennol a'r presennol o dan y gwahanol gynlluniau:

- Bydd taliadau cymorth cyfnodol presennol, wedi'u huwchraddio ar gyfer chwyddiant, yn parhau am oes y derbynnydd neu hyd y derbynnir dyfarniad iawndal.
- Wrth asesu iawndal am golledion yn y gorffennol, ni wneir unrhyw gyfrif na didyniad o unrhyw daliad cymorth a dderbyniwyd.
- Os ar ôl asesu, bydd yr iawndal ar gyfer anghenion gofal yn y gorffennol a'r presennol a cholledion ariannol yn y dyfodol, ond nid yn y gorffennol, yn llai na gwerth y taliadau cymorth a fyddai, fel arall, wedi dod i law ar ôl 1 Ebrill 2025, bydd y dyfarniad iawndal yn cael ei gynyddu i werth sy'n cyfateb i werth y taliad cymorth y byddid wedi'i ddisgwyl ond ar gyfer y cynllun iawndal.
- Pan fo'r gofal gros blynyddol a aseswyd yn y dyfodol a cholledion ariannol yn fwy na swm y taliadau cymorth, bydd gan y derbynnydd yr opsiwn o:
  - barhau i dderbyn cyfandaliad sy'n cyfateb i werth cyfalafol y taliad cymorth a chydbwysedd y dyfarniadau gofal a cholled ariannol yn y dyfodol megis taliadau cyfnodol, wedi'u huwchraddio ar gyfer chwyddiant, am oes;

- neu, cyfandaliad sy'n cynrychioli cyfanswm cyfunol gros y gofal a'r colledion ariannol a gafodd ddisgownt ar gyfer cyflymu derbyn yn lle taliad cymorth parhaus;
- neu, taliad rheolaidd parhaus sy'n cyfateb i'r taliad cymorth megis taliad cyfnodol a chyfandaliad sy'n cynrychioli mantolen y colledion yn y dyfodol a gafodd ddisgownt am gyflymu'r derbyniad.

Mae fy nealltwriaeth yn seiliedig ar fy narlleniad o fanylion ysgrifenedig y cynnig fel y'u rhannwyd â'r rhai sy'n bresennol yn y cyfarfodydd ymgysylltu, ac esboniadau a ddarparwyd gan swyddogion Swyddfa'r Cabinet. Os wyf wedi camddeall y bwriad, heb amheuaeth byddaf yn cael fy nghywiro.

Fe'm cynghorir nad yw'n bosibl, neu o leiaf nad yw'n ymarferol, o fewn terfyn amser y Senedd i greu is-ddeddfwriaeth i drosglwyddo swyddogaethau'r cynlluniau cymorth presennol i'r IBCA. Mae'r fframwaith cyfreithiol a gweinyddol y mae pob cynllun yn gweithredu ynddo yn wahanol ac yn gymhleth: fe'u gweinyddir gan Awdurdod Gwasanaethau Busnes GIG Lloegr ac yn y gwledydd datganoledig gan eu gweinyddiaethau. Mae cynllun yr Alban wedi'i sefydlu o dan bwerau rheoleiddio datganoledig. Mae cynllun Cymru yn seiliedig ar gyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan bwerau datganoledig. Yng Ngogledd Iwerddon sefydlwyd cynllun cymorth gan Adran Iechyd Gogledd Iwerddon. Yn Lloegr mae'r cynllun hefyd yn seiliedig ar gyfarwyddiadau anstatudol.

Fe'm hysbysir hefyd na fydd yn bosibl gwneud i'r iawndal gyfateb yn union i daliadau cymorth, yn enwedig oherwydd y bwriad yw i'r iawndal arfaethedig ar sail tariff ar gyfer gofal fod yn becyn cyffredinol yn seiliedig ar ragdybiaethau cyffredinol am y lefelau gofal amrywiol sy'n ofynnol yn ystod oes unigolyn heintiedig. Nid yw'r tybiaethau hyn yn honni eu bod yn nodi pryd y bydd angen lefelau penodol o ofal penodol yn ystod oes yr unigolyn heintiedig, yn hytrach nag awgrymu y bydd ar y rhan fwyaf o'r dioddefwyr hyn angen cyfnodau o wahanol lefelau gofal ar wahanol adegau, sy'n cyfateb i gyfanswm y ffigur a gyrhaeddir drwy ddefnyddio'r fformiwla arfaethedig. Felly, mae'n amhosibl gwahaniaethu rhwng elfennau o ddyfarniad gofal yn y gorffennol a'r dyfodol ar gyfer unigolyn byw heintiedig.

Mae posibilrwydd hefyd na fydd iawndal i bartneriaid mewn profedigaeth yn cyfateb i'r taliadau cymorth y maent yn eu derbyn, fel yr eglurir isod.

## Argymhellion blaenorol

Yn fy adroddiad fframwaith dywedais hyn am daliadau cymorth a'u perthynas â chynllun iawndal [pwyslais wedi'i ychwanegu]

**10.2 Bron yn unfryd, mae buddiolwyr y cynlluniau cymorth yn dymuno i'w taliadau rheolaidd barhau, ac i'w diogelwch gael ei gryfhau i ymrwymiad rhwymol gan y llywodraeth eu bod yn gwneud hynny. Nid oes unrhyw un eisiau colli eu hawl i gefnogaeth er mwyn cael iawndal. Felly, rwyf wedi argymhell y dylai'r taliadau blynyddol a gynigir gan y cynlluniau cymorth barhau; fel arall, y dylid eu huno â'r cynllun iawndal y gellid rhoi gwarant di-alw yn ôl dano o daliad parhaus. Mae talu'r taliadau blynyddol a wneir ar hyn o bryd gan y cynlluniau cymorth yn darparu isafswm sylfaen ar gyfer iawndal yn y dyfodol. O ystyried argaeledd iawndal am golli enillion a threuliau eraill, bydd y rhesymeg dros y taliadau cymorth wedi newid o un o**

liniaru caledi, i un o roi yn ôl i fuddiolwyr y safon byw y byddent wedi'i mwynhau oni bai am yr anaf. **Ni ddylai unrhyw fuddiolwr presennol cynllun cymorth fod ar eu colled oherwydd unrhyw newidiadau neu gyflwyno'r cynllun iawndal.**

10.3 Rwyf wedi argymhell ymhellach na chymerir unrhyw ystyriaeth wrth gyfrifo iawndal o unrhyw **daliad blaenorol** o gynllun cymorth neu un o'r ymddiriedolaethau ac elusennau blaenorol. Yn syml, roedd yr holl daliadau o'r fath yn rhai ex gratia, heb unrhyw gyfaddefiad o atebolrwydd, ac ni fwriedir iddynt fod yn iawndal. Beth bynnag, byddai'r ymchwiliad y byddai ei angen i bederfynu manylion llawn taliadau cymorth yn feichus i bawb, ac mewn rhai achosion yn amhosibl oherwydd cofnodion coll neu anhygyrch.

Yn ei ail adroddiad interim, cytunodd Syr Brian Langstaff â mi [pwyslais wedi'i ychwanegu]:

Rwy'n cadarnhau mai fy marn i, fel y mae hefyd ei farn yntau, **yw ei bod yn deg na ddylai taliadau cymorth a wnaed hyd yma gan unrhyw un o'r cynlluniau cymorth gael eu lleihau gan unrhyw ran o'r dyfarniad iawndal. Fodd bynnag, dylid ystyried taliadau cymorth yn y dyfodol mewn perthynas â chyfrifiadau colled yn y dyfodol.**<sup>17</sup>

<sup>17</sup> Ymchwiliad Gwaed Heintiedig, Ail Adroddiad Interim yr Ymchwiliad: tudalen 51.



## Pryderon a godwyd yn ystod yr ymgysylltiad

Mae un llais y buddiolwyr a ddisgrifir yma wedi ei ailadrodd wrthyf yn ystod y broses ymgysylltu bresennol, os rhywbeth yn fwy pendant fyth nag o'r blaen. Mae bron pob cynrychiolydd o sefydliadau cymunedol wedi dweud wrthyf eu bod wedi cael eu boddi gan bryderon gan bobl drallodus sydd wedi'u heintio ac yr effeithiwyd arnynt yn mynegi'r ofn y byddai eu taliadau cymorth rywsut yn cael eu cymryd oddi arnynt. Er enghraifft, dyfynnodd un sefydliad un ymateb i'w harolwg:

**Mae'r ffigurau eglurhaol a ddarperir yn cynrychioli ffraciwn mewn taliadau cymorth y byddwn yn eu derbyn pe byddwn yn byw am 30 mlynedd arall – sy'n bosibl iawn**

Dywedodd sefydliad arall wrthyf fod eisiau cadw taliadau rheolaidd ar 99% o'r bobl a holwyd.

Mae'n ymddangos bod pedair elfen i'r dadleuon a ddatblygir i mi gan neu ar ran y cymunedau heintiedig ac yr effeithiwyd arnynt.

Yn gyntaf, mae llawer wedi datblygu dibyniaeth ac ymddiriedaeth yn y system sy'n gwneud y taliadau hyn, ac nid ydynt am weld hyn yn cael ei aflonyddu o dan unrhyw amgylchiadau. Cyflwynodd Cymdeithas Haemoffilia:

**Mae'n amlwg na fyddai lleiafrif sylweddol o bobl yn derbyn dileu'r cynlluniau cymorth o dan unrhyw amgylchiadau...**

**I rai pobl, ni fydd unrhyw swm iawndal yn gwneud dileu'r cynlluniau cymorth yn dderbyniol.**

Cefnogwyd hyn gan yr ymatebion i arolwg a gynhaliwyd gan y Gymdeithas Haemoffilia lle dywedodd dros 50% o'r ymatebwyr na fyddent yn derbyn diwedd y cynllun cymorth presennol - hyd yn oed os nad oeddent ar eu colled o dan y cynllun newydd.

Yn ail, ac ni chafodd hyn ei ddatblygu gan bawb oedd yn mynegi'r pryder cyntaf, roedd rhai yn credu na ddylid ystyried y taliadau cymorth a dderbyniwyd wrth asesu'r colledion ariannol neu eraill at ddibenion iawndal – iddynt hwy roedd 'cymorth' yn gysyniad gwahanol i 'iawndal' ac nid oedd un yn rhan o'r llall. Cyflwynodd un sefydliad ei bod yn 'gwbl annerbyniol' i daliadau cymorth yn y dyfodol gael eu didynnu o **gyfanswm** iawndal pobl. Dywedwyd bod hyn yn groes i'm hargymhellion sef mai dim ond o **ran** o'r dyfarniad y dylid didynnu taliadau cymorth yn y dyfodol.

Yn drydydd, byddai rhai yn dweud y dylai dyfarnu iawndal (yn hytrach na chymorth) arwain at wneud y derbynwyr yn 'well eu byd' ac nid dim ond 'ddim yn waeth eu byd'. Fel arall, byddent yn gofyn i beth mae awndal yn dda, yn hytrach na chymorth?

Yn bedwerydd, gwrthwynebir y cynnig na fydd cynrychiolwyr ystadau a pherthnasau yr effeithir arnynt ac sy'n goroesi yn cael cyfle i gymryd iawndal neu daliadau cymorth yn daliadau cyfnodol.

Roedd y cynigion ar gyfer mynd i'r afael â phryderon yn cynnwys:

- cynnig opsiwn i ymgeiswyr hepgor asesiad o golledion ariannol yn y dyfodol yn gyfnewidam barhau i dderbyn taliadau cymorth;
- cynnig sicrwydd cliriach na fyddai neb yn waeth eu byd o dan y cynigion;
- cadw'r cynlluniau presennol, yn enwedig ynyr Alban, oherwydd natur yr ymrwymiaadau roddir i dderbynwyr o dan eu cynllun;
- diogelu manteision cymorth lleol a gynigir ar hyn o bryd;
- sicrhau na chaiff didyniadau o iawndal i ystyried taliadau cymorth parhaus y. eu gwneud ond ar sail tebyg am debyg;
- dyfarnu swm cyfatebol i bawb nad ydynt wedi derbyn cyfandaliad o gynllun cymorth er mwyn sicrhau bod triniaeth yn gyfartal â'r rhai sydd wedi derbyn.

Crynhodd cyfraniad ysgrifenedig gan aelod unigol o'r gymuned y teimladau a fynegwyd gan lawer:

**Mae'r taliadau cymorth wedi bod yn achubiaeth i mi a fy nheulu dros y blynyddoedd. Yn y pen draw, fe wnaethant gymryd lle cyflog nad wyf wedi gallu ei ennill ers dros 13 mlynedd, oherwydd salwch corfforol a meddyliol parhaus, a phob un yn gysylltiedig â'm haint HIV. Rwyf hefyd wedi cael fy nal yn y system budd-daliadau i ategu'r taliadau hynny. Rhwng fy nhaliad blynyddol, fy nhaliadau plentyn a thaliad gaeaf ychwanegol mae fy incwm blynyddol gan EIBSS dros £40,000 ar hyn o bryd. Hwn fydd fy 'mhensiwn' ar gyfer fy nyfodol gan nad wyf wedi gallu adeiladu fy mhensiwn personol fy hun. O ystyried yr oedi mewn cyfiawnder, difrifoldeb y celu a'r ffaith iddynt gael eu haddo i fuddiolwyr am oes, dylid gadael y taliadau cymorth ar waith yn ychwanegiad at y tariffau arfaethedig a'u dal yn yr un ystyr â phensiwn parhaus.**

## Cymhariaeth rhwng ymrwymadau'r Llywodraeth a'r cynnig

Roedd y cyflwyniadau a wnaed i mi ar y ddwy thema hyn yn dibynnu'n gyffredin ar ymrwymadau a fynegwyd ar ran y Llywodraeth. Yn benodol, roeddent yn dibynnu ar ddatganiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros lechyd a Gofal Cymdeithasol ar y pryd, Matt Hancock. Nid wyf yn siŵr bod ei ddatganiad wedi cael ei ddeall yn llawn.

Ymhlith pethau eraill a ddywedodd wrth yr Ymchwiliad oedd:

"pe bai argymhellion yr Ymchwiliad yn pwyntio at iawndal, yna wrth gwrs byddwn yn talu iawndal ac mae Adolygiad Syr Robert Francis ar iawndal yno er mwyn i'r Llywodraeth allu ymateb yn gyflym i hynny ... yr hyn y gallaf ei ddweud wrthyh yw y byddwn yn parchu canlyniad yr Ymchwiliad ac **os yw'r Ymchwiliad yn pwyntio at iawndal, yn hytrach na chynllun cymorth, yn y dyfodol wedyn bydd y Llywodraeth yn talu iawndal.**"<sup>18</sup>

Yn ei dystiolaeth lafar i'r Ymchwiliad gofynnwyd i Mr Hancock:

**MS RICHARDS:** Edrychom ychydig yn ôl ar ddogfen a oedd yn siarad o ran bod y rhain... Ex gratia.... Mae bob amser wedi cael ei fynegi yn ex gratia.... Wrth gwrs, gellir cymryd i ffwrdd yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ei wneud yn wirfoddol. A yw'r Adran yn deall, ac yn wir, Mr Hancock, a ydych chi'n deall ac yn gwerthfawrogi, y gallai'r ansicrwydd a'r diffyg teimladau o ddiogelwch a ddaw i ran y rhai sy'n dibynnu ar arian o'r fath ac absenoldeb sicrwydd neu ymrwymiad hirdymor gynyddu eu dioddefaint a'u trallod a'u pryder yn sylweddol?

**MR HANCOCK:** Wel, fel y dywedais yn fy ateb cynharach, nid dyna sut rwy'n credu y dylid dehongli'r sefyllfa ac rwy'n hapus i roi ymrwymiad na chaiff, cyn belled â bod a wnelwyf fi unrhyw beth ag ef. Ac mae'r Llywodraeth yn gwneud yr ymrwymadau hynny i'r rhai yr effeithiwyd arnynt cyhyd ag y bo angen...<sup>19</sup>

**MS RICHARDS:** Roedd gennym rywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod llywodraeth yr Alban wedi teimlo ei bod yn gallu rhoi sicrwydd i'w chymuned heintiedig ac yr effeithiwyd arni fod disgwyl taliadau am oes y derbynnydd.

18 Ymchwiliad Gwaed Heintiedig, Adroddiad yr Ymchwiliad: Cyfrol 1 Trosolwg ac Argymhellion, tudalen 185 [pwyslais wedi'i ychwanegu]

19 Tystiolaeth Ymchwiliad Gwaed Heintiedig, INQY1000121 - Llundain - Dydd Gwener 21 Mai 2021: tudalennau trawsgrifiad 132-135

**MR HANCOCK: Oedd**

**MS RICHARDS: Ai dyna'ch disgwyliad chithaul, Mr Hancock?**

**MR HANCOCK: Ie, byddwn i'n ymrwymo'n llwyr i unrhyw un sy'n derbyn taliad, unrhyw un o'r buddiolwyr sydd wedi'u heintio neu yr effeithir arnynt, y byddwn yn disgwyl i hynny barhau gydol eu hoes, yn llwyr. Dyna fy nisgwyliad. Byddwn i'n dweud bod hynny'n amlwg, ond weithiau mae angen dweud hynny.**

**MS RICHARDS: Mae llywodraethau'n newid, yn amlwg, ac efallai na fyddwch chi'n gallu rhwymo llywodraethau'r dyfodol...**

Yna gwnaeth y pwynt ei bod yn ymddangos, fodd bynnag, bod dull trawsbleidiol o ymdrin â'r mater hwn. Aeth Mr Hancock yn ei flaen:

**MR HANCOCK: Wel rwy'n sicr yn credu bod [trafodaethau-trawsbleidiol] yn rhesymol. Fodd bynnag, nid dyna sut y byddai cynllun fel hwn yn cael ei wneud yn barhaol oherwydd na all un Senedd rwymo un yn y dyfodol. Y ffordd orau i'w gwneud yn barhaol yw i'r Ysgrifennydd Gwladol ddatgan y dylai fod yn barhaol ac y bydd yn barhaol ac rwy'n falch iawn o wneud hynny.**

Aeth ymlaen i ddweud nad oedd unrhyw ystyriaeth wedi ei rhoi i ddeddfwriaeth sylfaenol ar y pwynt hwn ond:

"Rwy'n credu ei bod yn gwbl ddisgwyliad pawb o fewn y Llywodraeth y dylai cefnogaeth barhau cyhyd ag y mae ei angen, ac nid wyf yn credu y byddai unrhyw un a fyddai naill ai - unrhyw un yn y Llywodraeth neu a allai ddisgwyl bod mewn Llywodraeth yn gwyro o hynny.

Rwy'n ei chael hi'n arwyddocaol bod Syr Brian wedi mynegi ei gytundeb â'm hargymhelliad o ran y cynlluniau cymorth ar ôl derbyn y dystiolaeth hon. Yn fy marn i, mae'n ddehongliad rhesymol o'r hyn a ddywedwyd wrth dderbynwyr taliadau cynllun cymorth ddisgwyl y byddent yn parhau i dderbyn taliadau o'r fath gan y Wladwriaeth am oes y derbynnydd, ond na chafodd unrhyw ymrwymiad ei wneud ynghylch sut y byddai taliadau o'r fath yn cael eu gweinyddu, neu a fyddent yn cael eu hystyried mewn unrhyw gynllun iawndal. Pe bai taliadau sy'n gyfwerth â gwerth y taliadau cymorth sy'n daladwy o dan y cynlluniau presennol yn parhau cyn belled â bod derbynwyr yn dymuno eu derbyn, rwy'n ystyried na fyddai'n torri unrhyw ymrwymiad i'r Llywodraeth newid y modd y gwneir y taliad. Y ffaith y gallai'r IBCA wneud taliad o'r fath yn y dyfodol, yn hytrach na'r darparwyr presennol, na fyddai'n groes i unrhyw ymrwymiad yr wyf yn ymwybodol ohono.

O ran y berthynas rhwng taliadau cymorth a dyfarniadau iawndal o dan y cynllun, ni fyddai cynnig y Llywodraeth yn torri'r ymrwymiad yr wyf wedi'i ddisgrifio, i'r graddau y mae'n dilyn fy argymhelliad yn fras fel y'i cymeradwywyd gan Syr Brian. Dywedodd Mr Hancock, fel y nodwyd uchod y byddai cymorth (hynny yw, taliadau cymorth) yn parhau '**cyhyd ag y bo ei angen**' a hefyd am oes y derbynnydd.

I gwynion am ystyried taliadau cymorth yn erbyn dyfarniadau iawndal am golledion yn y dyfodol, gellir ateb bod llawer sy'n gymwys i gael iawndal, ond nad ydynt wedi cael hawl i daliad cymorth. Er eu bod yn sicr yn mynd i dderbyn mwy nag o'r blaen, efallai y byddant yn teimlo y byddent yn cael eu trin yn annheg pe na bai rhyw gyfrif yn cael ei gymryd o fudd taliadau cymorth fel yn erbyn o leiaf iawndal am golledion yn y dyfodol.

I'r pwynt na fydd rhai derbynwyr yn gweld unrhyw iawndal yn ychwanegol at werth y taliad cymorth, nid yw hynny'n gywir. Oherwydd na ddylid ystyried taliadau yn y gorffennol yn erbyn iawndal am golledion ariannol yn y gorffennol, neu ddyfarniadau anaf, effaith gymdeithasol neu ymreolaeth, sydd yn cynnwys dioddefaint yn y dyfodol yn ogystal â'r gorffennol, bydd derbynwyr yn derbyn cydnabyddiaeth am y dioddefaint hwnnw sy'n fwy na'r mesur iawndal yn unig.

Byddant hefyd yn parhau i gael budd diogelwch ymrwymiad gan y llywodraeth - wedi'i atgyfnerthu gan reoliadau statudol - o ran y taliadau rheolaidd y byddant yn eu derbyn, drwy'r elfen gymorth neu ddyfarniad iawndal, i'r graddau y maent yn dewis derbyn taliadau cyfnodol. Felly, bydd yr elfen o ddiogelwch a ddarperir ar hyn o bryd ar gyfer taliadau cymorth yn parhau ar gyfer y dyfarniadau cymorth ac iawndal a newidir, i'r graddau y cânt eu talu gan daliadau cyfnodol.

Yn anffodus, fodd bynnag, mae rhai pwyntiau pwysig o hyd a allai olygu bod rhai derbynwyr yn 'waeth eu byd' o'u cymharu â'u sefyllfa bresennol, neu'n teimlo eu bod yn cael eu trin yn annheg.

## Y berthynas rhwng dyfarniad gofal a thaliadau cymorth

Yn gyntaf, am y rhesymau a eglurwyd uchod, nid yw'n bosibl rhannu'r dyfarniad gofal arfaethedig yn elfennau'r gorffennol a'r dyfodol. Felly, os cynigir y dyfarniad gofal yn y cyfanswm i'w gymharu â'r taliad cymorth, caiff hyn yr effaith o ddiystyru'r dyfarniad sy'n deillio o hyn ar gyfer y gorffennol yn ogystal ag elfennau o'r dyfarniad gofal yn y dyfodol. Mae hyn yn groes i argymhelliad yr Ymchwiliad. Gellir dadlau bod hyn yn cael ei gydbwysu drwy ddiystyru taliadau cymorth yn y gorffennol, ond mae dadl o'r fath wedi ei thanseilio gan y rheswm dros y diystyru, sef bod taliadau cymorth blaenorol wedi bod yn rhai ex gratia. Beth bynnag, bydd yr eithriad hwn yn cael effeithiau amrywiol mewn achosion unigol.

## Sefyllfa pobl nad ydynt wedi gwneud cais am daliadau cymorth o'r blaen

Yn ail, mae grŵp o bobl a all fod yn gymwys i gael taliad cymorth ond nad ydynt wedi gwneud cais am un eto, neu sydd heb dderbyn un. Ni fydd ganddynt unrhyw lawr na all eu hiawndal fynd tano, oni bai eu bod yn cael taliad cymorth ôl-weithredol cyfwerth â thaliad cymorth.

## Hawl ystadau ac aelodau o'r teulu sydd wedi cael profedigaeth

Yn drydydd, mae problem ynglŷn â statws y taliad cymorth y mae partneriaid mewn profedigaeth yn ei dderbyn. Ar hyn o bryd mae partneriaid pobl sydd wedi'u heintio wedi marw yn derbyn, yn ogystal â thaliadau cyfandaliad penodol, taliad cymorth parhaus, ar sail 100% am y flwyddyn gyntaf ar ôl y farwolaeth a 75% wedi hynny. Bwriad hyn oedd parhau am oes y partner dibynnol. Y taliad cymorth presennol ar gyfer person heintiedig [HCV] yw £21,467, neu £32,555 os yw'r SCM yn bwerthnasol ynghyd â thaliad tanwydd gaeaf. 75% o'r ffigurau hynny, yn eu trefn, yw £16,100.25 a £24,416.25.

O dan y cynnig presennol ar gyfer y cynllun iawndal, byddai hyn yn parhau nes bod hawliad y partner mewn profedigaeth am iawndal yn cael ei asesu. Bydd yr iawndal yn cynnwys hawliad colled ariannol mewn profedigaeth lle'n briodol. Cyfrifir hyn ar sail £16,682 y flwyddyn, sy'n cynrychioli cyfran sefydlog o incwm blynyddol net tybiannol yr ymadawedig llai didyniad am y gost y byddai'r ymadawedig wedi ei greu i'w hun. Cymerir cyfnod y golled fel y cyfnod rhwng dyddiad y farwolaeth a disgwyliad oes iach yr ymadawedig. Gallai hyn fod yn hwy neu'n fyrrach na disgwyliad oes y partner mewn profedigaeth.

Mae'n ymddangos bod y lluosyn [y swm blynyddol a ddyfarnwyd] a'r cyfnod o golled yn y dyfodol yn llai neu'n gallu bod yn llai na'r swm a ddisgwyllir ar hyn o bryd o dan y taliad cymorth. Felly, os na fydd partneriaid mewn profedigaeth yn 'waeth eu byd' bydd yn rhaid talu 'ychwanegiad' i bron pob un ohonynt sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth.

Er bod llawer i'w archwilio i ddangos sut y gallai hyn weithio'n ymarferol mewn gwahanol achosion, yr awgrym yw y dylai fod gan y derbynnydd hawl i daliadau cyfnodol o werth y taliad cymorth o leiaf, er ei fod bellach wedi'i ail-labelu yn iawndal. Os dewisir taliad cyfnodol bydd yn parhau am oes wirioneddol y derbynnydd; os caiff ei gymryd yn gyfandaliad, mae'n debyg y bydd yn cael ei gyfrifo fel swm cyfalaf gostyngol i'w dderbyn yn gyflym, yn seiliedig ar ddisgwyliad oes iach tybiedig y person sydd wedi'i heintio. Os yw'n gywir na fyddai gan bartner mewn profedigaeth hawl i ddewis taliad cyfnodol, cytunaf y byddai hynny'n annheg. Er y gallai fod ffactorau sy'n ffafrio cyfandaliad fel yr opsiwn a ffefrir mewn rhai achosion, mewn llawer o achosion bydd yn ddoethach dewis sicrwydd incwm gwarantiedig am oes.

## Ffactorau perthnasol anariannol

Yn bedwerydd, mae'r pwynt dilys yn cael ei wneud nad mater o arian yn unig yw penderfynu a yw rhywun yn 'waeth ei byd', ond bod angen ystyried y gofid a'r pryder a achosir gan ansicrwydd a'r baich o benderfynu beth sydd orau iddynt hwy eu hunain. Fodd bynnag, i'r graddau y mae iawndal ariannol dan sylw, hyd y gellir, y bwriad yw rhoi unigolyn yn y sefyllfa y byddent wedi bod ynddi ond am yr anaf a achoswyd ar gam. Wrth gwrs, hyd yn oed mewn achos o ymgyfreitha na ellir byth ei gyflawni, ac mewn cynllun iawndal mae'r anghenion ychwanegol am symrlwydd a chyflymder cymharol yn golygu bod yn rhaid mynd ati ag agwedd eang.

O dan yr amgylchiadau, gan gynnwys y manylion byr angenrheidiol sydd ar gael ar hyn o bryd o'r cynigion, a'r cyfnod byr y mae gan y rhai sydd â diddordeb agosaf ynddynt i ystyried y goblygiadau, mae'n gwbl ddealladwy y bydd pobl yn teimlo'n ansicr ynghylch yr hyn y maent yn sefyll i'w dderbyn, ac yn ceisio dewis y sicrwydd cyflawn a fyddai'n cael ei gynnig trwy barhad o'r cynlluniau presennol. Y gwir yw mai'r bwriad yw cau'r cynlluniau presennol a'u disodli â thaliadau a wneir gan yr Awdurdod. Nid yw'n glir o bell ffordd o'r hyn sydd wedi cael ei ddatgelu gan y Llywodraeth hyd yma pa mor agos fyddai'r trefniadau newydd yn cyfateb i fuddion y cynlluniau presennol - heb sôn am sicrhau nad oedd neb yn waeth eu byd.

## Casgliad ynghylch a yw'r cynnig yn gyson ag ymrwymadau ac argymhellion blaenorol

Rwy'n ystyried y gallai'r cynigion fel y disgrifir uchod fod yn gyson ag ymrwymadau y Llywodraeth ynghylch taliadau cymorth, a chyda'r argymhellion y mae Syr Brian a minnau wedi'u gwneud o'r blaen. Yn anffodus, ni ellir dweud yn bendant mai dyma sy'n wir ar sail yr wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae angen profi a yw'r argraff hon yn gywir yn erbyn esboniad llawn o'r cynllun arfaethedig a'r cyfrifiadau sy'n deillio o hynny. Efallai mai dim ond trwy brofi manylion y cynnig o ran ceisiadau go iawn am iawndal y gellir gwneud hyn. Beth bynnag, mae'n amlwg bod y diffyg ymddiriedaeth sy'n deillio o brofiad y derbynwyr cymorth o'r ffordd yr ymdriniwyd â hwy dros nifer o flynyddoedd ac yn fwy diweddar yn agwedd y Llywodraeth tuag at iawndal wedi arwain at ofid ac amheuaeth go iawn ynghylch gwir effaith y newidiadau arfaethedig. Rwy'n credu y gallai hyn gael ei liniaru gan ddealltwriaeth gliriach o sut mae gwahanol gydrannau taliadau wedi eu gwneud a thrwy ddangos sut y dylid bodloni amgylchiadau dioddefwyr yn deg ac yn gymesur.

## Lefel y taliadau cymorth parhaus

Mae cyflwyniad gan gyfreithiwr wedi tynnu sylw at y ffaith fy mod wedi dweud yn fy fframwaith fod [pwyslais wedi'i ychwanegu].

"Dylid codi pob taliad cymorth blynyddol... at o leiaf 5% yn uwch na'r enillion canolrif cenedlaethol net, a dylid cynyddu'r **rhai sydd eisoes ar y lefel honno yn gymesur i gynnal y gwahaniaeth rhwng categorïau dyfarniad.**"<sup>20</sup>

Mae'n deg dweud na wnaeth y darn a danlinellwyd wneud ei ffordd i mewn i fy Argymhelliad 15 (b) ac (c):

Dylai'r taliadau blynyddol presennol o dan y cynlluniau cymorth gael eu parhau (neu eu cyfuno yn y cynllun iawndal\_...

Dylid ystyried dyfarniadau parhaus o'r fath wrth asesu dyfarniadau ar gyfer darpariaeth colled ariannol a gofal yn y dyfodol.

Derbyniodd adroddiad Syr Brian Argymhelliad 15 a bu'n dawe! ar yr hyn a ddywedwyd yn y paragraff cynharach a ddyfynnwyd.

Mae'r cyfreithiwr yn dadlau y bydd, heb y cynnyddiadau y cyfeirir atynt, yn arwain at anghysondebau a gostyngiadau yn yr hyn y mae buddiolwyr yn debygol o'i gael. Awgrymaf fod angen ystyried y dadansoddiad hwn cyn i'r cynllun gael ei gwblhau.

## Cymhwysedd pobl sy'n byw dramor

Codwyd is-destun pryder gan un cyfrannwr yn ymwneud â hawl derbynwyr taliadau cymorth a/ neu iawndal i'w derbyn os ydynt yn byw dramor. Nid wyf wedi gweld unrhyw awgrym nad yw hyn yn wir, ond gan y gallai fod yn ffynhonnell ansicrwydd a phryder, awgrymaf y dylid cadarnhau nad yw preswylfan yn cael unrhyw effaith ar daliadau cymorth na hawl i ddyfarniad iawndal a aseswyd yn yr un modd ag ar gyfer unrhyw berson cymwys arall. Efallai y bydd yn rhaid cynnwys un cynnig am dreth. Ni ellid disgwyl i'r llywodraeth roi unrhyw warant ynghylch effaith trethiant tramor ar daliadau o'r fath

20 Adroddiad astudio'r Fframwaith Iawndal - 7 Mehefin 2022: Crynodeb, Colledion ariannol, Statws taliadau cymorth: § 2.53.

## Argymhellion

Rwy'n argymhell:

5. Er mwyn creu a chynnal ymddiriedaeth – ac ymateb i'r neges glir iawn gan y gymuned heintiedig yr effeithiwyd arni - dylai'r taliadau cymorth presennol barhau i gael eu talu o dan yr enw hwnnw i bawb sy'n eu derbyn ar hyn o bryd neu y dangosir fel arall bod ganddynt hawl iddynt. Er mwyn osgoi amheuaeth, dylai hynny gynnwys y rhai byw heintiedig a'r rhai byw mewn profedigaeth yr effeithiwyd arnynt sy'n derbyn taliadau o'r fath ar hyn o bryd. Fodd bynnag, o ystyried y cyngor bod rhwystrau ymarferol a chyfreithiol anorchfygol rhag uno'r cynlluniau cymorth â'r cynllun iawndal o fewn yr amser sydd ar gael, awgrymaf y dylai'r Llywodraeth ystyried cadw'r cynlluniau presennol gan eu bod wedi eu gweinyddu ar hyn o bryd gyda'r cynllun iawndal yn asesu dyfarniad digolledu ar gyfer derbynwyr taliadau cymorth i adlewyrchu eu hanghenion a'u colledion nad yw'r taliadau hynny'n mynd i'r afael â nhw'n llawn. Gellid parhau â'r trefniant hwn cyhyd ag y bo'n angenrheidiol i greu'r fframwaith cyfreithiol sy'n ofynnol i uno'r cynlluniau cymorth i'r IBCA o dan fframwaith a gyrhaeddir mewn ymgynghoriad â'r cymunedau heintiedig ac yr effeithiwyd arnynt.
6. Dylai fod yn agored i unrhyw un nad yw'n derbyn taliad cymorth eto ond sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd y cynllun cymorth presennol, i wneud cais am un, a hynny hyd at 1 Ebrill 2025.
7. Fel y cynigiwyd eisoes, ni ddylid ystyried taliadau cymorth mewn dyfarniad o iawndal wrth asesu:
  - a. Dyfarniadau effaith anafiadau, effaith gymdeithasol, ymreolaeth. Unwaith eto er mwyn osgoi amheuaeth mae hyn yn cynnwys elfennau dyfarniadau o'r fath sy'n adlewyrchu anafiadau, trallod ac amddifadedd yn y dyfodol yn ogystal â phrofiadau'r gorffennol;
  - b. Dyfarniadau colled ariannol i'r graddau y maent yn ymwneud â gofal neu golledion sy'n digwydd cyn dyddiad y dyfarniad;
  - c. Dyfarniadau gofal i'r graddau y maent yn ymwneud â gofal yn y gorffennol. Mae'r dyfarniad gofal a gynigir ar hyn o bryd i'w wneud ar ffurf cyfandaliad trwy gyfrifiad ar sail tariff nad yw'n gwahaniaethu rhwng anghenion y gorffennol a'r dyfodol. Os caiff hynny ei gynnal, dylid dyfeisio dull o ddosrannu rhan o'r dyfarniad gofal yn adlewyrchiad teg o anghenion gofal yr ymgeisydd yn y dyfodol ar gyfer eu disgwyliad oes. Wedyn dylid trosi'r cyfandaliad sy'n deillio o hyn yn swm blynyddol tybiannol trwy gyfrifiad sy'n trosi cyfandaliad yn flwydd-dal tybiannol, gan fabwysiadu'r gyfradd ostyngol a ddefnyddir ar gyfer cyfrifo iawndal yn y dyfodol.<sup>21</sup> Wedyn gellir ychwanegu'r ffigwr blynyddol tybiannol sy'n deillio o hynny at unrhyw ddyfarniad colled ariannol blynyddol i'w gymharu ag unrhyw daliad cymorth a dderbynnir.

21 Gweler troednodyn (22) isod am fanylion y gyfradd hon.

8. Os a phryd y caiff taliadau cymorth eu disodli gan daliadau a wneir drwy'r IBCA, wrth asesu dyfarniadau gofal a chymorth ariannol, dylai asesiad iawndal y cynllun gynnwys cyfrif o'r taliadau cymorth a fyddai wedi parhau ar ôl 1 Ebrill 2025 ond ar gyfer creu'r cynllun iawndal. Os yw'r taliadau cymorth a fyddai wedi bod yn daladwy yn fwy na'r dyfarniadau gofal a cholled ariannol a aseswyd ar gyfer gofal a cholledion yn y dyfodol, dylai fod gan ymgeiswyr hawl o hyd i'r hyn sy'n cyfateb i daliadau cymorth yn llawn. Gan mai bwriad taliadau cymorth yw parhau am oes y derbynnydd, dylid asesu eu gwerth ar yr un sail. Dylai'r rheoliadau ei gwneud yn glir a ellir caniatáu unrhyw eithriadau i'r egwyddor hon.
9. Dylid ystyried fy argymhellid y dylid cynyddu taliadau cymorth a'r swm cyfatebol a aseswyd fel yr argymhellir uchod yn unol â'r hyn a ddywedwyd ym mharagraff 2.53 o adroddiad y Fframwaith, a'r effaith bosibl ar y symiau a dderbynnir gan bersonau cymwys os na chaiff hynny ei weithredu, yng nghyd-destun yr ymrwymiad na fydd unrhyw un yn waeth eu byd.
10. Yn ogystal â derbyn yn gyfandaliad sy'n rhan o'r dyfarniad iawndal a oedd yn cynnwys y dyfarniadau effaith anafiadau, effaith gymdeithasol a dyfarniadau ymreolaeth, ynghyd â dyfarniadau ar gyfer colled ariannol yn y gorffennol, dylai'r derbynnydd sydd wedi bod yn derbyn taliadau cymorth barhau i dderbyn swm cyfatebol yn daliadau cyfnodol. Dylid rhoi'r dewis iddynt dderbyn balans eu dyfarniadau ar gyfer gofal yn y dyfodol [a nodwyd fel y disgrifir uchod] a cholledion ariannol yn y dyfodol naill ai wedi'u cyfalafu ar ffurf gyfandaliad neu yn daliadau cyfnodol gwarantiedig. Nid wyf ychwaith yn gweld unrhyw reswm pam y dylid gwrthod y dewis o daliad cyfnodol sy'n adlewyrchu gwerth y dyfarniad gofal, colledion ariannol yn y dyfodol am eu hoes.
11. I'r graddau y cymerir dyfarniadau fel taliadau cyfnodol, dylid eu huwchraddio'n flynyddol ar gyfer chwyddiant gan yr un mesur a ddefnyddir ar gyfer taliadau cyfnodol a orchmynnir gan y llys.<sup>22</sup>
12. Os cânt eu cymryd yn gyfandaliadau, dylid cyfalafu dyfarniadau yn unol â dull cyfrifo a nodir yn y rheoliadau. Rwy'n argymhell y dylai'r dull a fabwysiadir fod yr un fath ag a ddefnyddir ar gyfer cyfrifo dyfarniadau cyfandaliad ar gyfer colledion yn y dyfodol mewn gweithredoedd iawndal llys, sef trwy ddefnyddio lluosyn, lluosydd a'r gyfradd ostyngol a ragnodir o dan adrannau A1 ac 1 o Ddeddf Iawndal 1969, fel y'i diwygiwyd gan adran 10 Deddf Atebolrwydd Sifil 2018.
13. Byddai'n gysur i dderbynwyr taliadau cymorth parhaus pe bai'r trefniadau ar gyfer talu a chyfathrebu wrth eu gweinyddu gan yr IBCA, yn mabwysiadu arfer gorau'r cynlluniau cenedlaethol presennol.
14. Dylai'r Cynllun gadarnhau bod hawl i ddyfarniadau ar gael ni waeth a yw person cymwys yn byw yn y DU neu rywle arall.

22 Mae'n rhaid i orchymyn ar gyfer taliadau cyfnodol a wneir gan lys mewn dyfarniad o iawndal anaf personol nodi y dylai'r taliadau amrywio bob blwyddyn trwy gyfeirio at y mynegai prisiau manwerthu oni bai bod y llys yn gorchymyn fel arall: Rheolau Gweithdrefn Sifil r41.8(1)(c). Mae bellach yn arfer cyffredin ar gyfer taliadau cyfnodol sy'n adlewyrchu costau gofal yn y dyfodol yn cael eu chwyddo drwy gyfeirio at fynegai ASHE ar gyfer talu darparwyr gofal: ASHE 6115, gan gymhwyso canradd benodol o'r grŵp galwedigaethol hwnnw: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Aciwt Tameside & Glossop yn erbyn Thompstone [2008] EWCA Civ 5. Yn yr un modd gellir defnyddio mynegeion grŵp galwedigaethol priodol o ASHE ar gyfer taliadau cyfnodol sy'n adlewyrchu colli enillion yn y dyfodol: Sarwar yn erbyn Ali [2007] EWHC 1255. Gweler yn gyffredinol McGregor ar lawndal argraffiad 21 pennod 41 §41-024 – 41-030



# Bandiau difrifoldeb

Mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylid rhannu dyfarniadau ar gyfer HBV a HCV a dylai cydheintiadau gael eu rhannu i fandiau o ddifrifoldeb cynyddol fel a ganlyn:

- HBV aciwt – haint byrrach na 6 mis
- HCV aciwt – heintiau sy'n fyrrach na 6 mis
- HCV neu HBV cronig - heintiau sy'n fwy na 6 mis
- Sirosis HCV, HBV - creithiau difrifol o'r afu a achosir gan niwed-tymor hir
- Sirosis HCV, HBV a ddad-ddigolledwyd, canser yr afu a / neu drawsblaniad yr afu

Bydd gan HIV un band gan ei fod yn haint gydol oes lle mae'r mwyafrif helaeth o bobl wedi cael afiechyd datblygedig gan gynnwys AIDS ac wedi marw. Effeithir yn ddifrifol o hyd ar y rhai sydd wedi goroesi.

Bydd bandiau o ddifrifoldeb cynyddol i'r rhai sydd wedi'u heintio â HIV a HIV a/neu HBV.

Ym mhob achos, mae'r grŵp cynghori arbenigol wedi cynghori bod marcwyr clinigol a fydd ar gael yn rhwydd ac yn galluogi pob achos i gael ei fandio yn hawdd, fel arfer o gofnodion meddygol.

## HBV

Gwnaed yr arsylwad yn ystod yr ymgysylltiad nad oedd llawer o gynrychiolaeth wedi bod ar gyfer pobl sydd â phrofiad byw o HBV. Cafodd hawl ehangach i iawndal ar gyfer y grŵp hwn ei argymhell gan Syr Brian Langstaff nag yr oeddwn wedi'i awgrymu yn yr adolygiad fframwaith. Rwy'n deall bod y grŵp cynghori o'r farn ei fod wedi ystyried y grŵp hwn yn ddigonol. Pe bai rhagor o amser wedi bod efallai y byddwn wedi gallu cymryd ymagwedd fwy rhagweithiol at ofyn am farn dioddefwyr HBV.

O ran y deunydd sydd ar gael ar hyn o bryd, ni allaf ddweud bod y cynigion yn annheg iddynt.

## Gwahaniaeth rhwng HIV a HBV / HCV

Gwnaed rhywfaint o sylw i'r effaith, gan nad yw HIV yn destun bandiau difrifoldeb, ni ddylai HCV a HBV chwaith. Nid dyna farn y grŵp cynghori arbenigol, ac mae eu rhesymu dros fabwysiadu dull gwahanol ar gyfer pob haint yn seiliedig ar eu dealltwriaeth o gynnydd pob clefyd, ac felly, mae'n ymddangos i mi yn gyfiawnhad rhesymol dros dderbyn eu hargymhellion. Pe bai cyfnod hirach ar gael i ymgysylltu, byddai'n well profi'r cyngor hwnnw yn erbyn ystod ehangach o brofiad byw ac yn wir ymgysylltu â grŵp ehangach o arbenigwyr.

O ystyried y rheidrwydd i gael iawndal cyn gynted â phosibl, rwy'n derbyn y dylid mabwysiadu eu dull ar y gwahaniaeth rhwng HIV a hepatitis.

## Amlygiadau hepatic Ychwanegol (EHMs)

Mae wedi cael ei gwestiynu a oedd y bandiau difrifoldeb ar gyfer HCV yn cymryd i ystyriaeth EHMs. Rwy'n amau bod hyn felly ond yn amlwg dylid ymestyn y disgrifiad o feini prawf y bandiau i gynnwys yr anafiadau a achosir gan yr haint a pheidio â chael ei gyfyngu i symptomau sy'n gysylltiedig â'r afu. Rwy'n argymhell hyn isod.

## Bandiau difrifoldeb ar gyfer HCV

Cyflwynodd cyfranwyr nad yw'r bandiau arfaethedig yn adlewyrchu cymhlethdod y cyflwr. Mae archwilio'r ymatebion a gofnodir mewn arolwg o'r gymuned yn datgelu ystod eang o safbwyntiau [mabwysiadwyd ffigurau crwn]:

- Mewn ateb i'r cwestiwn a oedd y bandio arfaethedig yn adlewyrchu'n ddigonol yr ystod o brofiad, dywedodd tua 30% ei fod yn gwneud hynny, dywedodd 40% nad oedd, ac nid oedd 30% yn gwybod.
- Wrth ateb yr hyn y dylid ei wneud am y bandio, dywedodd 30% y dylid cael rhagor o fandio, dywedodd 20% y dylai fod llai o fandio, a 25% yn ffafrio rhagor o unigoleiddio.

Mae cyfranwyr hefyd yn tynnu sylw at amrediad o gyflyrau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â heintiau a gydnabyddir gan y cynlluniau cymorth y maent yn honni nad ydynt yn cael eu cydnabod, neu o leiaf nad ydynt wedi eu disgrifio yn y cynigion. Fel y dywedodd un cyflwyniad:

"Rwyf am ailadrodd nad yw'r rhestr bresennol o Dariffau a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth yn cynnwys y categori yr wyf yn perthyn iddo a bod angen mynd i'r afael â hyn. Yn fy sefyllfa i cefais fy nghydheintio â hepatitis C wedyn B ac C eto dros ddau ddegawd, a daeth pob un o'r rhain yn salwch cronig, yn ogystal â bod yn agored i NV CJD ym 1993. Rwyf wedi dioddef o sirosis difrifol ers 2004 a chael canser yr afu yn 2020.

Roedd angen dau gwrs o driniaeth cemotherapi gwrthfeirysol, y cyntaf yn fy nhrindegau cynnar, a oedd yn driniaeth arbennig o niweidiol a milain yr oedd angen llawer iawn o ofal arnaf ar ei hôl oherwydd fy mod i mor sâl. Roedd hyn yn debyg i haemoffiliacs wedi eu cyd-heintio â HIV/Hep C ond nid yw'n cael ei adlewyrchu yn y tariffau ariannol o iawndal sy'n cael eu hawgrymu ar hyn o bryd. Hoffwn i'r mater hwn gael ei ystyried ar frys, os gwelwch yn dda."

Mae'r ymatebion hyn yn dangos cymhlethdod a'r angen i fandio ddarparu ystod ddigon eang o effaith i ganiatáu dull gweithredu ar sail tariff i iawndal. Mae'n bwysig bod sbardunau ar gyfer nodi ym mha fand y mae pob achos yn disgyn yn cael eu defnyddio'n hawdd gan aseswyr a'u bod yn cael eu deall gan ymgeiswyr. Mae angen iddynt nodi'r amodau sy'n benodol i bob band.

Rwy'n argymhell y dylid cyfeirio'r pryderon hyn at y grŵp arbenigol i gael eglurhad ynghylch a yw'r ffactorau a grybwyllwyd gan gyfranwyr wedi'u hystyried, ac os nad ydynt, pa addasiadau os o gwbl sydd eu hangen, ac, yn benodol, a oes galw am lefel uchel o ddifrifoldeb neu welliant.

Rwy'n nodi bod 60% o ymatebwyr yr arolwg yn credu nad oedd y dyfarniadau a awgrymir o fewn y bandio'n ddigon uchel. Dyfeisiwyd y lefelau presennol gan arbenigwyr cyfreithiol y grŵp cynghori yn dibynnu ar Ganllawiau'r Coleg Barnwrol a'r hyn sy'n cyfateb yng Ngogledd Iwerddon. Mae hyn yn gyson â'r dull a addewais yn yr Adroddiad Fframwaith. O ystyried y gwahaniaethau mewn bandio a fabwysiadwyd, hyd y gallaf weld, mae'r ffigurau y bwriedir eu mabwysiadu hefyd yn gyson â'r dull hwn. Yn ddealladwy bydd rhai yn credu nad yw'r ffigurau hyn yn ddigonol, ond yn realistig mae'n rhaid pennu ystod o ffigurau rhesymol o fewn terfynau'r hyn y mae'r llysoedd yn ei ddyfarnu ar hyn o bryd am anafiadau o'r difrifoldeb a'r anabled mwyaf.

Er bod yr anafiadau a ddioddefir gan y gymuned hon yn ofnadwy, mae'n amhosibl dweud y dylid eu hystyried yn gyffredinol i fod ar ben uchaf y raddfa. Fodd bynnag, credaf y byddai'n ddefnyddiol pe bai rhesymu'r grŵp arbenigol, ac yn enwedig ei arbenigwyr cyfreithiol, i'r graddau y mae hyn wedi'i dderbyn gan y Llywodraeth, yn cael eu nodi'n fanwl. Er mwyn meithrin ymddiriedaeth a derbyn tegwch dyfarniadau yn ddelfrydol, credaf y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r gymuned gymwys a'u cynghorwyr yn gallu deall y rhesymeg y tu ôl i'r ffigurau.

## Argymhellion

Rwy'n argymhell:

15. Bod y grŵp cynghori yn adolygu'r bandio arfaethedig yng ngoleuni'r cyflwyniadau a wnaed amdanynt fel y disgrifir uchod.
16. Bod y rhesymeg fanwl sy'n arwain at yr ystod arfaethedig o ffigurau ar gyfer dyfarniadau yn cael ei chyhoeddi.

## Hepgor SCM o'r bandio

Nid yw union natur y marcwyr clinigol wedi'i ddatgelu ac, felly, nid wyf wedi gallu gofyn am farn benodol arnynt yn ystod yr ymgysylltu [gweler uchod am ragor o sylwadau ar y mater hwn]. Fodd bynnag, mae llawer o gyfranwyr wedi gwneud sylwadau nad yw'r bandio a awgrymir yn cydgyfeirio neu'n ymddangos eu bod yn ystyried y Mekanwaith Categori Arbennig (SCM) sydd wedi'i gyflwyno i bob cynllun cymorth; er bod ganddo wahanol feini prawf ym mhob cenedl. Yn ei gyflwyniadau ysgrifenedig, cefnogodd un sefydliad cynrychioliadol y pryder hwn trwy gyfeirio at ei arolwg lle'r oedd tua 55% o'r ymatebwyr am weld bandio ar gyfer bandio diwrnod ychwanegol, er enghraifft y SCM. Yn ystod y cyfarfodydd, ymrwymodd Syr Jonathan Montgomery i fynd â'r pwynt hwn yn ôl at y grŵp arbenigol i'w ystyried.

Credaf ei fod yn bwriadu argymhell y dylid cydnabod y rhai sydd â chyflyrau fel y'u diffinnir ym meini prawf SCM yn fand difrifoldeb penodol, neu ychwanegu meini prawf eglurach at y bandiau presennol lle mae hyn yn fwy priodol.

Rwy'n cytuno bod achos cryf o ran sicrhau bod y bandiau difrifoldeb yn adlewyrchu o leiaf y meini prawf ar gyfer taliadau cymorth, ac i osgoi gwneud ceisiadau atodol oherwydd hepgor y categori hwn. Mae hwn yn faes lle byddaf i a'r Llywodraeth yn dibynnu ar y cyngor arbenigol.

Deallaf fod y grŵp arbenigol yn mynd i gynghori y dylai'r rhai a oedd yn gymwys i dderbyn dyfarniad o dan Fecanwaith Categori Arbennig yn un o'r cynlluniau cymorth fod yn gymwys i gael dyfarniad gofal gwell o dan gategori atodol pwrpasol. Yn achos yr ymgeiswyr hynny nad ydynt wedi bod yn derbyn taliad cymorth, byddent yn gymwys i gael dyfarniad gwell os gallant ddangos y byddent wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer y SCM yn eu gwlad. Mae'r grŵp arbenigol o'r farn bod hon yn ffordd decaf o adlewyrchu pwrpas y SCM yn un i gefnogi anghenion penodol yn hytrach nag oherwydd bod eu haint o symptomau sy'n deillio o hyn yn wahanol i'r rhai a adlewyrchir yn y dyfarniadau effaith ar anafiadau. Er y bydd derbynioldeb yr ateb hwn i ymgeiswyr yn dibynnu ar y ffigurau gwirioneddol a gynigir, fel dull gweithredu, byddwn yn ystyried bod hyn yn un teg.

## Argymhelliad

17. Rwy'n argymhell bod cyngor y grŵp arbenigol yn cael ei ddilyn o ran cydnabod cymhwysedd SCM.

## Cyfraddau tariff ar gyfer cydheintio

Mae cyfreithiwr, yn ei gyflwyniad, yn tynnu sylw at wahaniaeth rhwng y swm o £225,000 sydd i'w ddyfarnu i berson heintiedig HCV/HBV sydd â chanser yr afu tra bod person heintiedig HIV/HCV â chanser yr afu i gael £270,000. Rwy'n deall bod y dyfarniadau a argymhellir ar gyfer cydheintio â HIV a Hepatitis wedi'u cyrraedd trwy wneud cais, megis cyfradd sylfaenol, y dyfarniad am HIV ac wedyn ychwanegu 25-50% o'r dyfarniad arfaethedig ar gyfer Hepatitis. Yn achos cydheintio â HBV a HCV, cymerwyd cyfradd sylfaenol o'r dyfarniad arfaethedig ar gyfer un haint Hepatitis ac wedyn ychwanegu 25-50% ar gyfer yr haint Hepatitis ychwanegol. Wedi'i egluro felly, nid wyf yn gweld gwrthwynebiad i'r dull arfaethedig. Ond, mae hon yn enghraifft o'r anawsterau a allai sefyll yn ffordd derbyn y cynllun oherwydd yr angen am esboniad manylach.

## vCJD

Cynhyrchodd yr ymgysylltiad gwynion nad oedd bygythiad vCJD wedi'i ystyried. Credaf fod yr achosion prin iawn lle mae vCJD wedi'i gontractio mewn gwirionedd wedi bod yn gymwys i gael iawndal o dan y cynllun vCJD, er bod rhai wedi mynegi'r gred nad oedd hyn wedi digwydd. Profiad mwy cyffredin a thrallodus iawn fu derbyn llythyrau yn rhybuddio'r rhai sy'n derbyn y risg y gallent fod wedi'u heintio â vCJD a allai barhau heb symptomau am amser hir iawn. Dywedodd Syr Brian Langstaff fod<sup>23</sup>

**Nifer sylweddol o bobl a dderbyniodd gynhyrchion gwaed a rhai a wrthododd drallwysyadau gwaed wedi cael gwybod ers hynny eu bod mewn risg gynyddol o vCJD a dylent dynnu sylw eu hymarferydd meddygol neu ddeintydd at hyn cyn triniaeth. Mae hyn yn ei dro wedi peryglu eu mynediad at driniaeth o'r fath.**

Mae'n ymdrin yn fanwl â'r ddadl ynghylch a ddylai pobl fod wedi cael gwybod am y risg yng nghyffwrdd 5 yr adroddiad ai peidio. Mae'n ymddangos y cyhoeddwyd yn 2004 fod clinigwyr wedi cael gwybodaeth sy'n eu galluogi i nodi sypiau plasma a allai fod wedi'u heintio, ac y dylai clinigwyr hysbysu'r cleifion a nodwyd yn rhai 'mewn perygl' ynghyd â chael gwybodaeth ategol.<sup>24</sup> O ganlyniad, ym mis Medi 2004, hysbysodd canolfannau haemoffilia bobl a oedd ag anhwylder gwaedu ac a oedd wedi mynychu canolfan rhwng 1980 a 2001 o'r risg a chawsant gyfle i drafod y goblygiadau ac i ddarganfod a oeddent wedi derbyn swp cysylltiedig os oeddent yn dymuno. Erbyn mis Ionawr 2005 roedd tua 4,000 o bobl wedi cael gwybod. Dim ond os aeth rhoddrw ymlaen i gael diagnosis o vCJD y cafodd pobl a oedd wedi derbyn trallwysyadau gwaed eu hysbysu. Arweiniodd trafodaeth bellach at 2013 at gleifion a oedd wedi derbyn cynhyrchion plasma rhwng 1980 a 1989 yn ael eu 'dad-hysbysu', h.y. dywedwyd wrthynt nad oeddent bellach i gael eu hystyried yn rhai 'mewn perygl'. Mewn ystyriaeth fanwl iawn o'r ffordd yr ymdriniwyd â'r risgiau o amgylch vCJD, mae Syr Brian yn cymharu'r dull yn ffafriol â'r un a gymerwyd o ran risgiau HIV a hepatitis.

Yn ei ail adroddiad interim argymhellodd Syr Brian y dylid asesu unrhyw bryder ychwanegol a achosir gan hysbysiad yn rhan o'r dyfarniad effaith ar anafiadau.

Heb os, byddai cael rhybudd o risg o vCJD wedi bod yn frawychus ac efallai mewn rhai achosion wedi cael effaith andwyol ar fynediad at driniaeth. Fodd bynnag, mae amgylchiadau achosion unigol mor amrywiol fel nad wyf yn argyhoeddedig y gellir rhoi mwy na'r gydnabyddiaeth fwyaf cyffredinol yn y dyfarniadau effaith ar sail tariff i'r pryder y bydd llawer wedi'i ddioddef o'r rhybudd hwn. Ni allaf, felly, ddirnad nad yw'r lefel o ddyfarniad a gynigir yn ddigonol i gymryd ystyriaeth o'r gorbryder hwnnw.

23 Ymchwiliad Gwaed Heintiedig, [Adroddiad yr Ymchwiliad](#): Cyfrol 1 Trosolwg ac Argymhellion, tudalen 2.

24 Ymchwiliad Gwaed Heintiedig, [Adroddiad yr Ymchwiliad](#): Cyfrol 5 Beth ddigwyddodd a pham?, tudalen 315.

## Salwch seicolegol

Roedd llawer o gyfranwyr i'r ymgysylltiad o'r farn nad oedd digon o sylw wedi ei roi i salwch seicolegol yn hytrach na gofid cyffredinol, gorbryder ac iselder a achoswyd gan yr heintiau ofnadwy hyn a'u canlyniadau. Ymrwymodd Syr Jonathan Montgomery i fynd â'r pwynt hwn yn ôl at y grŵp arbenigol i'w ystyried.

Yn wir, nid yw'n wir bod symptomau seicolegol yn cael eu crybwyll wrth ddogfennaeth y cynnig a rennir yn y broses ymgysylltu. Felly, nid yw'n glir i ba raddau y cymerwyd y rhain i ystyriaeth naill ai yn y bandiau difrifoldeb na'r tariffau effaith ar anafiadau cysylltiedig. Nid oes amheuaeth am effeithiau seicolegol niweidiol eang a achosir gan yr heintiau hyn. Yn ystod y dystiolaeth i'r Ymchwiliad, gofynnwyd i'r Athro Weinman ac eraill:<sup>25</sup>

**MS RICHARDS: Mae'r effaith seicolegol a ddisgrifiwyd gan unigolion i'r Ymchwiliad, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn cynnwys tystion sydd wedi cael diagnosis o anhwylderau seiciatrig cydnabyddedig, gan gynnwys anhwylder straen wedi trawma, OCD, anhwylder affeithiol deubegynol, gorbryder ac iselder yn arbennig gorbryder ac iselder.**

**... A yw hyn yn deg: ei bod yn gwbl gredadwy meddwl y gallai haint â HIV, haint â hepatitis C a'r math o amgylchiadau yr ydym wedi'u gweld yn cael eu disgrifio yn y datganiadau arwain at ddatblygu anhwylder seiciatrig o'r math hwnnw?**

**YR ATHRO WEINMAN: Ydy, rwy'n golygu ein bod yn gwybod y bydd cyfran o bobl yn datblygu newid hwyliau mawr ar gyfer unrhyw broblem iechyd hirdymor fawr. Fel arfer gorbryder yn y cyfnodau cynnar ond yn aml yn arwain at iselder. Felly, wyddoch chi, bydd grŵp o gleifion rwy'n eu hadnabod yn dda, rhywbeth fel 20, 25% o'r cleifion hynny yn datblygu'r problemau hwyliau mawr hynny, oherwydd y newidiadau a achosir gan y cyflwr. Ond rwy'n meddwl nad yr ymateb seicolegol i'r cyflwr yn unig yw'r hyn rydym yn delio ag ef yma... Yr hyn rydych chi'n delio ag ef yw pobl sy'n profi stigma enfawr... lle mae cyfathrebu wedi bod yn wael, lle nad ydynt efallai wedi teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo neu hyd yn oed yn teimlo eu bod wedi'u gwrthod gan y system gofal iechyd. Rwy'n credu mai'r llun o newidiadau sy'n wirioneddol gyfrifol am y tebygolrwydd llawer mwy y bydd pobl yn datblygu problemau seicolegol difrifol ac adweithiau...**

**MS EDWARDS: Rydych chi'n ychwanegu'r driniaeth ac yn benodol y triniaethau hyn, yn enwedig interferon a ribavirin sy'n gwanychu-iselder o fath eithafol... Felly nid yw nifer y ffactorau sy'n arwain at salwch seicotig iselder ac weithiau difrifol yn syndod.**

25 Tystiolaeth Ymchwiliad Gwaed Heintiedig, INQY1000050 - Llundain - Dydd Llun 24 Chwefror 2020: tudalennau trawsgrifiad 134-136

Mae'r dystiolaeth hon yn awgrymu y bydd lefel o ofid, pryder a newid hwyliau seicolegol wedi ei ddiodeff gan bron pob person heintiedig. Fodd bynnag, bydd rhai sydd wedi diodeff cyflyrau mwy difrifol, sef salwch neu anhwylder seiciatrig y gellir rhoi diagnosis ohonynt, gan arwain at ganlyniadau difrifol weithiau.<sup>26</sup> Er bod y categori cyntaf o ddiodeffaint yn cael ei ystyried orau trwy'r tariff safonol gan ei fod yn osgoi ymholiadau ymwithiol diangen i fywydau ymgeiswyr, gallai salwch ac anhwylderau mwy difrifol y gellir rhoi diagnosis ohonynt ddigwydd i unrhyw berson heintiedig, beth bynnag yw difrifoldeb eu heintiad, yn dibynnu efallai ar eu bregusrwydd.

## Argymhelliad

18. Rwy'n argymhell mai'r ffordd orau o ystyried y math hwn o anaf seiciatrig yw caniatáu dyfarniad atodol i'r rhai sy'n gallu dangos eu bod wedi diodeff o un neu fwy o nifer ddiffiniedig o afiechydon neu anhwylderau meddyliol a ddiagnosiwyd, fel arall y rhai sydd wedi diodeff canlyniadau difrifol o ganlyniad i salwch meddwl neu anhwylder sy'n gysylltiedig â haint cymwys. Gellid cyflawni hyn drwy ychwanegu'r maen prawf hwn at y rhai sy'n cefnogi cymhwysedd ar gyfer y band difrifoldeb ychwanegol sy'n cyfateb i SCM yr wyf wedi cyfeirio ato uchod, neu drwy greu gwelliant atodol ar wahân.

## Effeithiau triniaeth

Dyweddod llawer o gyfranwyr yr ymgysylltiad nad oedd yn ymddangos bod bandiau a chyfnodau dyfarniadau effaith anafiadau yn cymryd digon o ystyriaeth o effeithiau triniaeth. Mae'n amlwg o adroddiadau'r ymchwiliad a thystiolaeth y gall effeithiau triniaeth, yn enwedig interferon fod yr

un mor ddrwg neu'n waeth na'r clefyd ei hun. Yn ystod y cyfarfodydd, ymrwymodd Syr Jonathan Montgomery i fynd â'r pwynt hwn yn ôl at y grŵp arbenigol i'w ystyried.

## Argymhelliad

19. Os yw'r tariffau a gynigir gan y grŵp arbenigol mewn gwirionedd wedi ystyried yr ystod o effeithiau a brofir yn aml ar ôl triniaeth, rwy'n argymhell y dylid eu gwahodd i egluro eu rhesymu dros gyrraedd y tariffau y maent yn eu pennu. Fy nealltwriaeth o'r adborth gan y gymuned yw eu bod yn ystyried bod y ffigurau arfaethedig ar hyn o bryd yn rhy isel i ystyried effeithiau triniaeth a ddiodeffir gan lawer. Os yw'r grŵp cynghori, ar ôl myfyrio, yn dod i'r casgliad bod angen iddo adolygu tariffau i ddarparu ar gyfer y pwynt hwn, argymhellaf y dylid cynyddu eu tariffau a awgrymwyd yn wreiddiol i ystyried effeithiau niweidiol triniaeth, fel arall, cyflwynir tariff atodol ar gyfer yr ymgeiswyr hynny a all ddangos effeithiau difrifol yn ychwanegol at gyffredinolrwydd profiad a gymerir i ystyriaeth yn y tariff craidd. Roedd dros 40% o ymatebwyr arolwg un sefydliad cynrychioliadol o'r farn y dylai'r rhai sy'n cael eu trin ag Interferon ffurfio categori dyfarnu ar wahân. Rwy'n argymhell y dylid rhoi sylw i farn ddiwygiedig y grŵp arbenigol ynghylch a ddylid mabwysiadu y naill neu'r llall o'r opsiynau hyn.

Un o'r pryderon a godwyd oedd nad oedd o reidrwydd yn dilyn triniaeth 'lwyddiannus', (yn enwedig y mathau cynharach o driniaeth) y gallai'r person heintiedig ddychwelyd i'r gwaith naill ai'n llawn neu'n rhannol. Rwyf wedi gwahodd y grŵp arbenigol i ystyried y pwynt hwn.

26 Canfu astudiaeth o hunanladdiad gan ddynion canol oed fod gan 52% o'r garfan gyflyrau iechyd corfforol, a chan 33% gyflyrau cronig. Roedd llawer wedi profi 'digwyddiadau bywyd niweidiol': Appleby et al, *Suicide by middle aged men*. National Confidential Inquiry into Suicide and Safety in Mental Health, 2021: The University of Manchester, adroddiad llawn.

Os ydynt, wrth ystyried y dystiolaeth, yn cynghori bod angen gwneud rhywfaint o gyfrif gwahanol, naill ai wrth ddiffinio achos dros ddyfarniad ariannol atodol neu gynnydd mwy cyffredinol i'r tariff safonol ar gyfer colli enillion, rwy'n argymhell bod y Llywodraeth yn addasu'r cynigion yn unol â hynny.

## Eglurhad o feini prawf clinigol ar gyfer bandiau difrifoldeb

Rwyf eisoes wedi gwneud sylwadau nad yw'r meini prawf clinigol ar gyfer cymhwyso ar gyfer pob band difrifoldeb wedi'u nodi'n fanwl yn y ddogfennaeth a rannwyd yn yr ymgysylltu. Er mwyn tryloywder a dealltwriaeth gyffredin o sut y bydd y cynllun yn gweithredu, mae'n bwysig bod y meini prawf hyn yn cael eu hamlinellu'n fanwl yn gyhoeddus, ac yn y rheoliadau.

### Argymhelliad

20. Rwy'n argymhell bod y meini prawf clinigol ar gyfer bandiau difrifoldeb wedi'u nodi'n llawn i sicrhau y gellir cwblhau asesiadau yn wrthrychol a thryloyw.

## Darpariaeth ar gyfer dirywiad

Cododd cyfranwyr y mater o sut y gellid addasu dyfarniadau pe bai dirywiad annisgwyl ar ôl i'r dyfarniad gael ei wneud. Ni allaf weld unrhyw ddarpariaeth yn y cynigion a gyhoeddwyd ar gyfer dyfarniadau neu adolygiad dros dro. Rwy'n deall, fodd bynnag, mai rhagdybiaeth weithredol y grŵp ymgynghorol oedd y byddai ail-geisiadau yn cael eu caniatáu.

Yn gyffredinol, er mwyn cau pen y mwdwl - yn bennaf ar gyfer derbynwyr dyfarniadau, ond hefyd ar gyfer gweinyddu'r cynllun yn effeithlon - rwy'n ystyried y dylid asesu'r dyfarniadau ar gyfer ymgeiswyr byw gan ystyried yr holl bethau a allai ddigwydd a'r risgiau yn y dyfodol. Mae strwythur

y tariffau yn ei fenthyg ei hun i'r dull hwn gan fod tybiaethau eisoes wedi'u cynnwys yn yr asesiad o fandiau difrifoldeb.

Mae cyflwyniad wedi codi mater cysylltiedig o ran terfynau amser arfaethedig ar gyfer gwneud ceisiadau. Y flwyddyn olaf y bwriedir derbyn ceisiadau yw 2031, ond gofynnir y cwestiwn ynghylch beth fydd yn digwydd i ymgeisydd a gafodd ddyfarniad yn 2025 ac yna mae'n dymuno ailymgeisio yn dilyn dirywiad yn 2032. Awgrymaf y dylid osgoi'r mater hwn os bydd dyfarniadau cychwynnol yn ystyried argyfyngau a risgiau yn y dyfodol.

### Argymhelliad

Awgrymaf y dylai'r gallu i ddychwelyd am ddyfarniad diwygiedig fod yn gyfyngedig, os caniateir hynny o gwbl, i achosion lle mae newidiadau sylweddol i gyflwr yr ymgeisydd na allent ac na chawsant eu hystyried wrth wneud y dyfarniad gwreiddiol. Er enghraifft, os, ar ôl dyfarnu ar sail bod yr ymgeisydd yn dioddef o un haint, mae'n ymddangos bod un arall wedi dod i'r amlwg.

21. O ran y ddarpariaeth ar gyfer dirywio, argymhellaf y dylid derbyn ceisiadau am ddyfarniad diwygiedig yn unig o dan yr amgylchiadau mwyaf eithriadol, na chawsant eu hystyried yn ystod yr asesiad cychwynnol, ac a fyddai'n arwain at anghyfiawnder amlwg i'r ymgeisydd oni bai bod adolygiad o'r dyfarniad yn cael ei ganiatáu.

## Llwybr atodol

Gofynnodd rhai cyfranwyr a fyddai'n agored i wneud cais llwybr atodol mewn perthynas ag effaith anafiadau, effaith gymdeithasol a dyfarniadau ymreolaeth Mae'n ymddangos bod y cynnig presennol yn cyfyngu'r llwybr atodol i hawliadau am ddyfarniadau gofal a cholledion ariannol.

Rhesymeg y dull tariff yw bod cyfiawnder eang yn cael ei gynnig i bawb – neu bron y cyfan – oherwydd bod digon o dir cyffredin rhwng amrywiol brofiadau byw unigol ac i ddarparu ar gyfer cynllun sydd ag ychydig o gymhlethdodau ac oedi â phosibl. Mewn theori, o leiaf, dylai fod yn bosibl dylunio categorïau anafiadau a dioddefaint sy'n deillio o glefyd penodol fel hyn. Mae'n deg arsylwi po fwyaf hael yw'r tariff safonol, o'i gymharu â'r ystod debygol o ganlyniadau mewn ymgyfreitha, y lleiaf cryf yw'r achos dros gynnig llwybr pwrpasol, yn achos y categorïau dyfarnu sy'n cyfateb yn fras i rwymediau cyfraith gwlad neu sy'n ychwanegu atynt. Rwy'n amau y byddai'r gwahaniaethau posibl sy'n deillio o archwiliad mwy pwrpasol o achosion eithriadol, yn gyfran gymharol fach o'r dyfarniad cyffredinol, ac mae'n ddigon posibl y byddai'r ymdrech sydd ei hangen i sefydlu hawl yn anghymesur i'r ymgeisydd a'r cynllun. Mewn cyferbyniad, mae'r ystod debygol o anghenion gofal a cholledion ariannol yn golygu ei bod yn llawer mwy tebygol y bydd angen dull pwrpasol ar gyfer achosion eithriadol yn achos cyfiawnder a thegwch.

## Argymhelliad

Am y rhesymau hynny, nid wyf yn argymhell bod llwybr atodol ar gael heblaw am ddyfarniadau gofal a cholled ariannol, ond dylai'r llywodraeth ystyried y rhesymau sy'n cystadlu â'i gilydd dros gyfiawnhau llwybr o'r fath ei hun.

## Prawf

Mynegwyd pryderon am anawsterau darparu tystiolaeth, yn enwedig o ran dyddiad neu achos yr haint lle mae hyn yn berthnasol; ond mewn gwirionedd, o ran unrhyw fater sy'n berthnasol i'r asesiad mewn unrhyw achos penodol Anhawster penodol a grybwyllir yw absenoldeb cofnodion meddygol perthnasol, rhai ohonynt wedi cael eu dinistrio. Fel sy'n amlwg o adroddiad yr Ymchwiliad, cafodd cynlluniau cymorth cynharach eu llesteirio gan heriau o ran y dystiolaeth oedd ei hangen i sefydlu hawliad, gan achosi gofid a phryder di-baid i lawer o ymgeiswyr.

O ran sicrwydd, y bwriad yw y bydd dull yr Awdurdod o ymdrin â cheisiadau mor rhagweithiol a chydymdeimladol â phosibl, ac yn gyson â diogelu uniondeb y cynllun yn briodol ac yn gymesur:

- Bydd yr Awdurdod yn chwilio am wybodaeth gefnogol yn rhagweithiol i leihau'r baich a roddir ar ymgeiswyr i ymchwilio i'w hachos eu hunain.
- Lle mae cofnodion meddygol, mae gan yr Awdurdod bŵer statudol i fynnu eu bod yn cael eu datgelu - fel sy'n wir am unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'w asesiadau.
- Bydd yn derbyn fel prawf pendant o'r meini prawf sy'n ofynnol ar gyfer cymhwysedd i dystiolaeth y cynllun iawndal bod ymgeisydd wedi'i dderbyn gan gynllun cymorth blaenorol.
- Bydd tystiolaeth a roddir i'r Ymchwiliad yn ffynhonnell wybodaeth werthfawr a fydd yn osgoi'r angen am ailadrodd llawer gan ymgeiswyr.
- Ni fydd gwrthodiad gan gynllun yn cael ei ystyried yn derfynol.



- Pan nad oes cofnodion meddygol ac nad oes cymhwysedd wedi'i dderbyn ar gyfer cynllun cymorth yn flaenorol, cymerir ymagwedd gydymdeimladol tuag at wybodaeth o'r fath sydd ar gael, gyda pharodrwydd i dynnu casgliadau ffafriol o wybodaeth amgylchiadol.
- Mae atgofion ymgeiswyr eu hunain yn dystiolaeth y mae'n rhaid eu trin â pharch a dealltwriaeth, a pheidio ag ymagweddu â hwy ag unrhyw ragdybiaeth anffafriol.

Rwy'n bwriadu sicrhau bod yr Awdurdod yn ymgynghori â'r gymuned ac yn ei chynnwys wrth ddylunio'r prosesau ymgeisio ac asesu. Felly, y gobaith yw y gall y pryderon dealladwy sydd gan bobl am sut y mae cymhwysedd i gael ei sefydlu gael eu bodloni gan fesurau fel y rhain.

## Argymhelliad

22. Rwy'n argymhell bod y rheoliadau'n ei gwneud yn glir y gall yr Awdurdod lunio ei weithdrefnau asesu a gwneud penderfyniadau ei hun, gan gynnwys ei ddull o ymdrin â pha dystiolaeth ategol sydd ei hangen.

# Dyfarniad Effaith Gymdeithasol

## Cynnig

Y cynnig yw y dylid cael tariff, cyfradd safonol, dyfarniad i bobl heintiedig ac yr effeithir arnynt ni waeth beth yw hyd yr haint neu ddioddefaint dilynol, ond sy'n amrywio i raddau bach yn dibynnu ar y math o haint, ac i raddau mwy mewn perthynas â chydheintiau. Byddai ystâd unigolyn heintiedig ymadawedig yn derbyn dyfarniad cyfatebol. Byddai unigolion yr effeithiwyd arnynt hefyd yn derbyn dyfarniad effaith gymdeithasol cyfradd safonol o ffigur sylweddol is. Yn gwyno, cynigir:

- Y dylai pobl sydd wedi'u heintio ag unrhyw un haint heblaw HBV neu HCV aciwt dderbyn £50,000; byddai person sydd wedi'i heintio â HCV aciwt yn unig yn derbyn £5,000 ac ni argymhellir unrhyw ddyfarniad mewn perthynas â HBV;
- Dylai person byw heintiedig sydd wedi'i gydheintio â HIV ac unrhyw fath o HBV neu HCV dderbyn £70,000;
- Dylai ystâd person sydd wedi marw ac sydd wedi'i heintio dderbyn dyfarniad sy'n cyfateb i'r uchod;
- Dylai'r dyfarniad effaith gymdeithasol i bobl yr effeithiwyd arnynt mewn unrhywategori fod yn £8,000.

## Cymhariaeth rhwng pobl heintiedig ag anhwylderau gwaed a'r rhai a dderbyniodd drallwysiadau

Yn y sesiynau ymgysylltu, mynegwyd pryderon nad oedd y dyfarniad effaith gymdeithasol yn adlewyrchu'n ddigonol effaith waethybol y stigma sy'n gysylltiedig â'r haint ar bobl sydd ag anhwylderau gwaedu o ystyried bod yr anhwylderau hyn eisoes wedi achosi stigma. Dangosodd arolwg

y Gymdeithas Haemoffilia ynglŷn â'r cynllun arfaethedig fod dros 80% o'r ymatebwyr o'r farn y dylent dderbyn dyfarniadau uwch na'r rhai heb anhwylderau gwaed. Cyflwynwyd

**Nad oedd gwahaniaeth pa haint oedd ganddynt, cafodd pobl eu trin ag amheuaeth ac, mewn rhai achosion, gelyniaeth agored a arweiniodd at ynysu cymdeithasol.**

Am y rhesymau tebyg i'r rhai a nodir isod, nid wyf o'r farn y gellir gwahaniaethu difrifoldeb stigma rhwng dioddefwyr ag anhwylderau gwaedu a'r rhai a oedd hebddynt. Efallai y bu stigma sylfaenol ynghlwm wrth haemoffilia a allai fod wedi cynyddu bregusrwydd person heintiedig i ddioddef o effeithiau stigma, ond mae'n debygol na ellir gwahaniaethu rhwng y dioddefaint ei hun a'r person a gafodd ei heintio drwy drallwysiad.

## Cymhariaeth rhwng achosion HIV a HCV

Rwy'n derbyn ei bod yn rhesymol trin effaith stigma sy'n gysylltiedig â haint o HCV i fod yn debyg i'r hyn sy'n gysylltiedig â HIV. Yn amlwg, mewn perthynas â'r nifer fawr o anffodusion a gafodd eu heintio â'r ddau afiechyd, mae'n amhosibl datgymalu effeithiau'r naill oddi wrth y llall. Nodaf, mewn perthynas â heintiau HCV, fod y grŵp arbenigol seicogymdeithasol wedi cynghori'r ymchwiliad bod

**Hepatitis C yn gyflwr sydd wedi'i stigmatiddio yn rhannu rhai o nodweddion HIV, â'i lwybr trosglwyddo arferol trwy drin gwaed, yn enwedig yng nghyd-destun defnyddio cyffuriau anghyfreithlon, gan ei gysylltu ag ymddygiad annerbyniol cyhoeddus. Y prif wahaniaeth oedd nad oedd unrhyw ymgyrchoedd addysgol mawr yn targedu hepatitis C yn benodol. Felly,**

**roedd gan y cyhoedd wybodaeth gyfyngedig iawn am hepatitis C ac fel y dywedodd tystion, roeddent felly'n tynnu ar eu gwybodaeth o HIV, a fyddai'n debyg iawn yn eu barn nhw, ac roedd hyn yn eu dychryn. Yn yr un modd â chyflyrau eraill sy'n cael eu stigmatiddio, mae HIV/AIDS a hepatitis C yn gallu arwain at y meddiannydd yn profi stigma 'teimledig'. Mae hyn yn disgrifio ymwybyddiaeth unigolyn o fod â chyflwr sy'n cael ei ddibrisio'n gymdeithasol yn y gymuned ac sy'n eu gwahaniaethu oddi wrth y boblogaeth arferol sydd heb stigma mewn ffordd hynod o ddifriol (Goffman, 1963). I'r rhai a dderbyniodd gynhyrchion gwaed neu waed heintiedig, roedd eu cyflwr dan stigma yn ganlyniad triniaeth feddygol. Fodd bynnag, mae syniadau o gyfrifoldeb a bai unigol yn gynhenid i stigma a thybiwyd gan y cyhoedd fod y rhai â HIV a hepatitis C wedi dod â'r mater arnynt eu hunain.<sup>27</sup>**

Mae'r adroddiad yn mynd yn ei flaen i roi llawer o enghreifftiau dirdynnol o effaith y stigma ond, hyd y gallaf ddweud, nid yw'n gwahaniaethu'n benodol rhwng effeithiau pob haint, na rhwng y rhai a oedd yn trin oherwydd anhwylder gwaedu a'r rhai a gafodd eu trin am resymau eraill. Mae'r adroddiad yn ei gwneud yn glir mai dim ond yn rhannol y mae'r effaith seicolegol ar unrhyw unigolyn yn gysylltiedig â difrifoldeb eu cyflwr, mewn cyferbyniad â ffactorau eraill megis eu canfyddiad o'u cyflwr, eu hymatebion ymdopi a'r cymorth sydd ar gael iddynt. Nododd yr adroddiad, er y gallai amseru a phatrwm yr effaith seicogymdeithasol fod yn wahanol i bobl sy'n cael eu trin am gyflwr parhaus (megis haemoffilia) i'r rhai a oedd gynt yn iach ac wedi'u heintio trwy drallwysyadau gwaed yn dilyn damweiniau neu enedigaeth, roedd yr effeithiau'r un mor ddwys.<sup>28</sup> Ni welaf un awgrym yn y dystiolaeth hon fod yr effaith gyffredinol yn wahanol ar y cyfan rhwng y ddau grŵp hwn.

Yn wir, gellid arsylwi â thristwch nad oedd y stigma cymdeithasol sy'n gysylltiedig â HIV a HCV yn dibynnu'n llwyr ar a gafodd y dioddefwr ei heintio o gwbl. Ofnaf y byddai llawer o bobl ag anhwylderau gwaedu ac a oedd yn ddigon ffodus i osgoi haint, ac felly nad ydynt yn gymwys i gael iawndal o dan y cynllun, wedi dioddef yr un ofnau ar ran cymdogion a chysylltiadau anwybodus â'r rhai a oedd wedi'u heintio. Maent yr un mor debygol o fod wedi bod eisiau osgoi datgelu eu cyflwr i eraill. Mae cymaint yn amlwg gan ymatebydd arolwg a ddyfynnir yng nghyflwyniadau'r Gymdeithas Haemoffilia:

**Effeithiwyd ar bobl ag anhwylderau gwaedu a'u teuluoedd gan yr un lefel o stigma/gwahaniaethu/aflonyddu ynghylch HIV/AIDS ni waeth a oeddent wedi'u heintio ag ef ai peidio – yn enwedig yn ystod yr 80au. Hyd yn oed heddiw mae rhai pobl yn dal i fod yn amharod/gofalus ynghylch dweud wrth eraill am eu hanhwylder gwaedu.**

Mae'r iawndal oherwydd yr effaith gymdeithasol a achoswyd gan yr haint, nid unrhyw effaith gymdeithasol gefndirol anhwylder gwaedu. Felly, rwy'n ystyried bod gan y grŵp cynghori arbenigol hawl i ddod i'r casgliad bod y stigma'n debygol o fod yn gymharol ni waeth beth oedd yr haint penodol.

27 Tystiolaeth Ymchwiliad Gwaed Heintiedig, EXPG0000003 - Adroddiad Arbenigol i'r Ymchwiliad Gwaed Heintiedig: Materion Seicogymdeithasol - 01 Ion 2020: tudalennau 20-21

28 Ibid tudalen 2

## Gwahaniaethau o ran hyd cyfnod effeithiau cymdeithasol niweidiol

Gwnaed pwynt ychwanegol ynglŷn â'r gwahaniaeth mewn profiad yn ôl y cyfnod o amser y cafodd y stigma ei ddiodef, a hefyd yr effaith wahanol ar y rhai a ddiodefodd anghyfiawnder triniaeth ddiangen gyda chynhyrchion gwaed oherwydd camddiagnosis.

Y dull yn y cynnig yw rhoi swm cyfradd unffurf ar gyfer pob lefel o ddifrifoldeb ac eithrio ar gyfer HCV aciwt ni waeth beth yw'r newidynnau hyn. Mae hwn yn ddull gwahanol i'r un a argymhellais ac a oedd ar gyfer dyfarniad wedi'i wahaniaethu yn ôl difrifoldeb y clefyd a pha mor hir y cafodd ei ddiodef. Trwy oblygiad, derbyniodd Syr Brian y dull hwn, ond ni wnaeth wneud sylw penodol ynghylch a ddylai fod swm gwahaniaethol ar gyfer y ffactorau amrywiol hyn. Mae cynnig y Llywodraeth, wrth dderbyn dull cyfradd unffurf, wedi mabwysiadu ffigurau sydd, beth bynnag, ar ben uchaf y raddfa yr oeddwn wedi'i awgrymu'n betrus.

Nid yw'n glir pa gymaryddion neu egwyddorion a arweiniodd at y ffigurau a gynigiwyd gan y Llywodraeth, os o gwbl. Yn ystod yr ymgysylltiad, ni chefais unrhyw gyflwyniadau sylweddol ar y rhain y gellid casglu nad oedd anfonlonrwydd cyffredinol â hwy fel mater o egwyddor. Fodd bynnag, mae cryfder y rhain mewn casgliadau yn cael ei leihau'n sylweddol gan y cyfnod byr o amser y bu'n rhaid i unrhyw un dreulio ac ystyried manylion y cynllun.

Wrth fynd i'r afael â'r dyfarniad effaith ar anafiadau, cyfeiriodd Syr Brian at y Bandiau Vento fel cymharydd priodol, gan ddyfynnu o'r achos y dechreuodd y bandiau hyn: Vento v Prif Gwnstabl Heddlu Gorllewin Swydd Efrog a'u bwriad yw adlewyrchu.<sup>29</sup>

**Teimladau goddrychol o drallod, rhwystredigaeth, pryder, gorbryder, straen meddyliol, ofn, galar, ing, cywilydd, anhapusrwydd, straen, iselder ac ati, a graddau eu dwyster.**

Derbyniodd y llys yn yr achos hwn, fel y mae'n rhaid i ni wrth ystyried y ffigurau yn berthnasol i'r cynllun arfaethedig, bod

**rhaid i lysoedd a thribiwnlysoedd wneud eu gorau glas gyda'r deunydd sydd ar gael i wneud asesiad synhwyrol, gan dderbyn ei bod yn amhosibl cyfiawnhau neu egluro swm penodol â'r un math o sylfaen dystiolaeth gadarn a rhesymu ymarferol perswadiol sydd ar gael wrth gyfrifo colled ariannol neu iawndal am anaf corfforol.**

Defnyddir y bandiau Vento yn arweiniad gan Dribiwnlysoedd Cyflogaeth wrth ddyfarnu iawndal am effaith gwahaniaethu ac aflonyddu. Rwy'n deall y gallai cynigion y Llywodraeth fod wedi rhoi sylw i'r Bandiau Vento mewn perthynas â'r dyfarniad effaith ar anafiadau, ond nid y dyfarniad effaith gymdeithasol, yn unol ag adroddiad Syr Brian. Serch hynny, efallai y byddant o rywfaint o gymorth wrth asesu'r ffigurau arfaethedig ar gyfer effaith gymdeithasol, ar yr amod nad yw hyn yn arwain at gyfrif dwbl.

I'r graddau y mae'r canllawiau Vento yn helpu, nodaf, ac eithrio'r band isaf, nad oes gwahaniaeth penodol ar sail hyd amlygiad i stigma a gofid, mewn cyferbyniad â'i ddifrifoldeb. Nodaf fod y cynnig ar gyfer y dyfarniad effaith gymdeithasol i bobl heintiedig, i bawb ond yr achosion HCV a HBV aciwt, yn uwch na'r ffigur Vento uchaf ac mae'n debyg ei fod wedi'i gynllunio i adlewyrchu anferthedd yr hyn y mae cymaint o bobl heintiedig yn ei wynebu. Mae'r ffigurau hyn yn ymddangos yn rhesymol i mi, ac rwy'n derbyn ei bod hefyd yn rhesymol cynnig cyfradd unffurf heb gyfeirio at amser ar draws pob band ond y lleiaf difrifol. Mae hyn yn sicrhau cyfiawnder eang, mwy o symlrwydd asesu a gofyniad llai heriol o ran tystiolaeth ategol.

29 Ymchwiliad Gwaed Heintiedig, Ail Adroddiad Interim yr Ymchwiliad: tudalen 45.

## Gwahaniaethu rhwng dyfarniadau ar gyfer pobl sydd wedi'u heintio ac yr effeithiwyd arnynt

Cwestiwn yr wyf yn awgrymu y gallai'r Llywodraeth roi ystyriaeth bellach iddo yw a ddylid marcio'r gwahaniaeth rhwng yr effaith gymdeithasol ar y rhai yr effeithiwyd arnynt a'r heintiedig felly.

Mae'n ymddangos bod llawer o'r effeithiau a ddisgrifir yn yr adroddiadau arbenigwyr seicogymdeithasol i'r Ymchwiliad wedi dioddef yn gyffredin gan yr haint a'r rhai yr effeithiwyd arnynt. I nodi rhai dyfyniadau:

- Mae pob salwch hirdymor yn cael effeithiau seicolegol ar y rhai sydd â'r salwch a'r rhai sy'n agos atynt.
- Cafwyd ystod eang o effeithiau seicolegol difrifol, ar unigolion heintiedig a'r rhai oedd yn gofalu amdanynt dros gyfnod hir.<sup>30</sup>
- Roedd yn rhaid i unigolion heintiedig ac yr effeithiwyd arnynt hefyd ymdopi ag ansicrwydd sylweddol ynghylch cyflwr y person heintiedig, yn ogystal â'u hiechyd yn y dyfodol.<sup>31</sup>
- Mae tystion yn disgrifio sut y cafodd colli brawd/rhiant/gofalwr neu'r posibilrwydd o'u colli oherwydd haint effaith sylweddol ar eu hiechyd meddwl. Disgrifiodd rhieni sut nad oeddent yn gallu darparu'r agosatrwydd emosiynol yr oeddent yn credu y dylent fod wedi gallu ei wneud, o ganlyniad i driniaeth feddygol aml a derbyniadau i'r ysbyty.
- Mae effeithiau negyddol hefyd ar berthnasoedd teuluolrhwyng perthnasau a'r plentyn neu aelodau o'r teulu yr effeithir arnynt ac aelodau

gwahanol o'r teulu gan gynnwys dadleuon, tensiwn a diffyg dealltwriaeth o deimladau.<sup>32</sup>

- Ar gyfer unigolion sydd wedi'u heintio ac yr effeithiwyd arnynt, roedd eu cyflwr seicolegol yn aml yn gwaethygu gan ddirywiad mewn perthynas â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.<sup>33</sup>
- I lawer, roedd eu rhieni'n byw gyda'r wybodaeth ac yn cael trafferth â'r her o gadw cyfrinachau oddi wrth eu plant a'u brodyr a'u chwiorydd, yn ogystal â theimlo'n euog am fod wedi caniatáu iddynt dderbyn cynhyrchion gwaed.<sup>34</sup>

Yn fwy penodol, mae ystyriaeth yr adroddiad o'r dystiolaeth o effaith stigma yn ei gwneud yn glir bod llawer o bobl yr effeithiwyd arnynt wedi profi digwyddiadau a oedd yr un mor ofidus i'r bobl heintiedig dan sylw.<sup>35</sup> Er enghraifft:

- Y gŵr a'r wraig yr ymosodwyd ar y ddau yn gorfforol;
- Roedd merch wedi cael ei bwlio yn gorfforol, a cherrig wedi'u taflu ati, a'i gwisg wedi ei rhwygo i ffwrdd yn yr ysgol am fod ei thad wedi'i heintio;
- Teuluoedd a symudodd i ffwrdd a newid cyflogaeth i osgoi erledigaeth;
- Perthnasau a ffrindiau yn rhoi'r gorau i ymweld oherwydd y gwyddys bod aelod o'r teulu wedi'i heintio;
- Graffiti camdriniol yn cael ei beintio ar eu cartrefi neu geir;
- Cerrig wedi'u taflu at feddau o aelodau teulu heintiedig;
- Roedd bywydau 'wedi'u rhwygo'n ddarnau' ac wedi'u 'dryllio' i unigolion oedd wedi'u heintio a'u teuluoedd.

30 Ibid tudalen 1

31 Ibid tudalen 2

32 Tystiolaeth Ymchwiliad Gwaed Heintiedig, EXPG0000042 - Adroddiad Arbenigol i'r Ymchwiliad Gwaed Heintiedig: Materion Seicogymdeithasol (Atodol) - 01 Medi 2020: tudalen 3

33 Tystiolaeth Ymchwiliad Gwaed Heintiedig, EXPG0000003 - Adroddiad Arbenigol i'r Ymchwiliad Gwaed Heintiedig: Materion Seicogymdeithasol - 01 Ion 2020: tudalen 3

34 Tystiolaeth Ymchwiliad Gwaed Heintiedig, EXPG0000003 - Adroddiad Arbenigol i'r Ymchwiliad Gwaed Heintiedig: Materion Seicogymdeithasol - 01 Ion 2020: tudalen 3

35 Ibid tudalennau 23-25

Rwy'n derbyn y bydd effaith profiadau mor ofnadwy wedi bod yn fwy i'r person heintiedig am y rheswm mai nhw yw achos uniongyrchol - os nad yn gwbl anghyfiawnadwy -ymatebion anwybodus a chreulon eraill. A hefyd oherwydd bod yr effaith yn fwy tebygol o fod yn gyson iddynt. Felly, mae lefel uwch o ddyfarniad yn gyfiawn, ond efallai y gofynnir a ellir cyfiawnhau gwahaniaeth rhwng tua 6 ac 8 gwaith.

Nid yw'r ffigur o £8,000 yn gyffredinol ar gyfer pobl yr effeithiwyd arnynt, yn fy marn i, yn adlewyrchu difrifoldeb yr erledigaeth barhaus y mae'n ymddangos bod llawer wedi'i ddisgrifio. Hyd yn oed os credir nad oedd mwyafrif y bobl yr effeithiwyd arnynt wedi dioddef effaith ar ben mwyaf difrifol y raddfa, mae bron pob un yn sicr wedi dioddef mwy na'r effaith 'unwaith ac am byth' y cyfeirir ato yn y disgrifiad o'r lefel isaf o ddyfarniad. Gallai hynny fod yn briodol i aelodau cymwys o'r teulu a ffrindiau nad ydynt yn byw gyda'r person heintiedig, ond mae'n anodd gweld sut na fyddai'r rhai sy'n byw gyda'r person heintiedig yn perthyn yn fwy rhesymol i'r band canol.

## Argymhellion

23. Rwy'n ystyried ei bod yn rhesymol cynnig un cyfandaliad cyfradd unfurf ar gyfer effaith gymdeithasol. Mae'r ffordd yr effeithiwyd ar ddiodefwyr mor amrywiol fel ei bod yn anymarferol adlewyrchu'r amrywiadau hynny mewn dyfarniad sy'n seiliedig ar dariff ag unrhyw gywirdeb. Mae'n bosibl, er enghraifft, i effaith ddifrifol iawn ddod o ganlyniad i brofiad byrhoedlog a ddiodefir gan berson sydd â band isel o haint, ac effaith lai difrifol i'w ddiodef dros gyfnod hwy gan berson heintiedig mewn cyflwr mwy difrifol.
24. Rwy'n argymhell ailystyried y dyfarniad effaith gymdeithasol ar gyfer pobl yr effeithiwyd arnynt. Awgrymaf y dylid dyfarnu ffigur uwch i'r rhai yr effeithiwyd arnynt sy'n fwyaf tebygol o fod wedi bod yn arbennig o agos at yr heintiedig. O ystyried y gallai fod anawsterau o ran profi cyd-fyw am gyfnod penodol, gellid cynnig y ffigurau uwch i bartneriaid, plant o dan 18 oed ar ddechrau'r haint, rhieni plant sydd wedi'u heintio o dan 18 oed ar ddyddiad dechrau'r haint a brodyr a chwiorydd. Awgrymaf y byddai ffigur safonol o £12,000 yn briodol i'r grwpiau hyn.

# Tariffau

Mae nifer o bwyntiau wedi'u gwneud gan gyfranwyr am y tariffau a argymhellwyd:

- Awgrymir nad yw'r tariffau anafiadau yn ddigonol o'u cymharu â thariffau'r cynllun iawndal Horizon. Er fy mod wedi awgrymu eisoes y gellid gofyn i'r grŵp cynghorol roi rhesymau manylach dros eu ffigurau, mae'n deg i wneud sylw fod amgylchiadau dioddefwyr Horizon yn wahanol iawn ac yn anodd eu cymharu a phrofiad y dioddefwyr yn yr achos hwn.
- Cyflwynwyd gan un cyfreithiwr nad oedd y tariffau yn dderbyniol ac y byddai'n golygu y byddai'r rhan fwyaf o'u cleientiaid yn dewis gwneud cais drwy'r llwybr atodol oni bai eu bod yn cael eu gwella.

Mae'r pryderon a fynegwyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd darparu digon o gyfiawnhad mewn deunydd cyhoeddedig sy'n cefnogi'r cynllun ar gyfer y ffigurau tariff i ddangos eu bod yn dod o fewn yr ystod a nodir gan gymaryddion cydnabyddedig, megis Canllawiau'r Coleg Barnwrol, neu'r canllawiau Vento. Y risg yw, os na fydd y gymuned a'u cynghorwyr cyfreithiol yn fodlon bod y ffigurau a gynigir yn deg a chymesur, bydd llawer yn dewis gwneud ceisiadau llwybr atodol, neu, yn waeth, yn ystyried ymglyfreitha.

Am y tro, fy argraff i yw bod y ffigurau a gynigir yn dod o fewn ystod resymol, ond o ystyried y ffordd y mae'r Llywodraeth wedi dewis datblygu'r cynigion ar gyfer y cynllun, mater iddynt hwy yw cyfiawnhau'r ffigurau arfaethedig - nid i'r Awdurdod, nac i minnau.

## Argymhelliad

25. Mae'n bwysig, â chymorth y grŵp cynghori arbenigol a'r cynghorwyr cyfreithiol, fod y Llywodraeth yn cyhoeddi rhesymeg lawn dros y ffigurau tariff y mae'n eu cynnig, gan esbonio sut y cyrhaeddod nhw, ac â pha gymharwyr y maent i'w cymharu.

# Iawndal Cosbol

Cefais fy atgoffa, yn adroddiad y Fframwaith, fy mod wedi awgrymu y dylid ailedrych ar y sefyllfa o ran iawndal cosbol neu enghreifftiol yng ngoleuni canfyddiadau adroddiad yr Ymchwiliad. Cyflwynwyd bod y canfyddiadau sydd bellach wedi'u cyhoeddi yn cynnwys beirniadaeth y gellid seilio cais am iawndal o'r fath arni.

Nodaf nad yw adroddiad yr Ymchwiliad yn gwneud argymhellion yn hyn o beth. Nodaf, fodd bynnag, fod Cynllun Iawndal Gorchymyn Lliniaru Ymgyfreitha Grŵp Horizon yn ei wneud mewn rhai amgylchiadau yn caniatáu dyfarnu iawndal rhagorol - o £75,000 yn achos erlyniad maleisus aflwyddiannus. O dan y cynllun hwnnw, mae pob achos i'w ystyried ar sail ei rinweddau.

Pe bai'n hawlio am ddyfarniadau rhagorol i'w hystyried gan y cynllun hwn, byddai'n golygu proses debyg i ymgyfreitha gwrthwynebol. Byddai'n gofyn am ystyriaeth fanwl o bob achos i asesu gradd, os o gwbl, y camymddwyn sy'n gysylltiedig ag ef. Yn fy marn i, byddai hynny'n rhwystr sylweddol rhag prosesu ceisiadau mwy cyffredinol am iawndal. Er y gallai fod yn fater y gallai'r Llywodraeth ddymuno ei ystyried ar wahân i'r Cynllun, ni allaf argymhell ychwanegiad o'r fath at gynllun sydd eisoes yn gymhleth.



# Dyfarniad ymreolaeth

Bwriad y dyfarniad ymreolaeth yw rhoi dyfarniad newydd i adlewyrchu'r diffyg cydsyniad ar gyfer triniaeth, y methiant i hysbysu cleifion am y risgiau, y gofid o gael y clefydau hyn a'r effaith ar fywyd teuluol a chymdeithasol, gan gynnwys colli'r cyfle i gael plant. Dylid nodi bod effaith stigma yn cael sylw gan y dyfarniad effaith gymdeithasol. Cymerodd y grŵp cynghori iawndal cymharol a ddyfarnwyd yng nghynllun Windrush a'r canllawiau 'Vento'. Mae'r dyfarniadau a awgrymir ar gyfer person heintiedig yn amrywio yn unol â natur y clefyd, a'r cam difrifoldeb [mewn perthynas â HBV a HCV]. Mae'r amrediad rhwng £10,000 a £60,000 ar gyfer haint mono person byw sydd wedi'i heintio, £70,000 ar gyfer pob math o gydheintio cydnabyddedig person byw sydd wedi'i heintio. Ar gyfer pobl yr effeithir arnynt, mae'r dyfarniad yn dod o £16,000 i bartner, £6,000 i riant neu blentyn [lle bodlonir y terfyn oedran o 18 oed] a dim i frodyr a chwiorydd neu ofalwyr. Rhoddir yr uchafswm grant hefyd ar gyfer person sydd wedi marw sydd wedi'i heintio.

Roedd rhai cyfranwyr yn dadlau nad oedd y ffigurau a gynigiwyd ar gyfer y dyfarniad ymreolaeth yn ddigonol. Fodd bynnag, o'r argraff gyntaf, mae'n ymddangos bod y ffigurau'n ad-daliad rhesymol am y sarhad cyffredinol i ddiodefwyr mewn perthynas â gosod triniaeth arnynt heb rybudd o'r risgiau a'r ymyrraeth â'u bywydau preifat a theuluol, gan gynnwys yr ymyrraeth yn eu dewisiadau o ran perthnasoedd a chael teulu.

## Ymchwil

Codwyd un pwynt penodol gan nifer o gyfranwyr yn dadlau y dylid rhoi dyfarniad ychwanegol i'r rhai y cynhaliwyd yr ymchwil anfoesegol arnynt. Cyn belled ag y gallaf ddweud, ni fwriedir i'r dyfarniad arfaethedig am ymreolaeth gynnwys

elfen ar gyfer hyn ac, fel yr wyf yn ei ddeall, ni wnaeth y grŵp cynghori ystyried yr agwedd hon yn eu hargymhellion. Ni fydd pob diodefwyr wedi bod yn rhan o brosiect ymchwil penodol. Efallai mai'r profiadau a adroddir a achosir i'r plant yn Nhreloar yw'r enghraifft fwyaf trawiadol, ond mae adroddiad yr Ymchwiliad yn tynnu sylw at eraill. Mae'n ymddangos i mi fod y sarhad o gynnal ymchwil anfoesegol arnoch heb gydsyniad na rybudd yn ymosodiad ar hawliau dynol diodefwyr sy'n haeddu iawndal a chydabyddiaeth benodol. Dylid ei ystyried yn briodol fel elfen o'r dyfarniad ymreolaeth, ond fel elfen ychwanegol benodol yn ychwanegol at y dyfarniad tariff a argymhellir yn gyffredinol ar gyfer y goresgyniad annibyniaeth a brofir yn gyffredinol trwy gael ei drin â chynnyrch heintiedig. Os na fydd dyfarniad yn cynnwys hyn fel elfen mewn achosion priodol, mae risg gynyddol y bydd aelodau o'r gymuned heintiedig a oedd yn destun ymchwil yn teimlo eu bod yn cael eu cydnabod yn annigonol.

Mae cyrraedd ffigur priodol yn heriol, ond yn unol â bwriad cyffredinol y cynllun mae'n iawn bod dull eang yn cael ei gymryd i gwmpasu'r profiad cyffredinol dan sylw, yn hytrach na chyflawni'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig ag asesiad pwrpasol unigol. Wedi dweud hynny, awgrymaf y dylai fod yn bosibl gwahaniaethu rhwng dau gategori. Yn fy marn i, mae'n ddigon drwg bod pobl yn cynnal ymchwil cudd arnoch o gwbl, ond mae'n ymyrraeth arbennig o ddybryd pan gaiff ei chynnal ar blant. Os caiff hynny ei dderbyn, byddai'n dilyn y dylai fod dwy lefel o ddyfarniad: un i blant ac un i oedolion. O ran y swm priodol ar gyfer y tariff, rwy'n amharod i awgrymu ffigurau fy hun, neu wneud mwy na chynnig arweiniad ynghylch yr egwyddorion y gellid eu pennu drwyddynt.

Fodd bynnag, o ystyried prinder amser, byddaf yn awgrymu amrediad posibl - er y byddai'r Llywodraeth yn cael cyngor da i geisio barn y grŵp cyngori ac, yn benodol, y cyfreithwyr dan sylw.

Yn gyntaf, mae'n rhaid cydnabod nad yw cael eich trin fel pwnc ymchwil ynddo'i hun yn golygu anaf corfforol ar wahân, na gwahanol, i'r rhai sydd wedi dioddef effeithiau'r driniaeth heintio beth bynnag. Dylid gofyn i'r grŵp cyngori a yw'r tariffau ar gyfer dyfarniadau effaith anafiadau a argymhellir yn cynnwys effaith triniaeth fel y disgrifir yn y dystiolaeth i'r Ymchwiliad; ni waeth a oedd yn ganlyniad i brosiect ymchwil. Os felly, mae'r iawndal ychwanegol am wrthod yr hawl i gydsynio i driniaeth arbrofol neu wrthod ei rhoi, a'r trallod sy'n deillio o wrthod ymreolaeth. Bydd amrywiaeth diderfyn o ymatebion i'r wybodaeth a gafwyd yn ddiweddar y mae angen ei chynnwys wrth ystyried ffigur tariff.

Efallai y gellir ystyried cyfeiriad defnyddiol ar gyfer achosion sy'n cynnwys anaf i deimlad a gofid yn dilyn ymosodiadau anghyfreithlon yn y prif werslyfr ar iawndal yn ganllaw defnyddiol.<sup>36</sup> Mae adolygu'r achosion a nodwyd yno yn awgrymu i mi fod yr amrediad a argymhellir ar gyfer y dyfarniad ymreolaeth yn gyson â'r dyfarniadau yn yr achosion hynny. Mae'n anodd mewn llawer ohonynt i wahanu'r swm a roddir ar gyfer 'anurddas, dioddefaint meddyliol, gwarth a chywilydd' oddi wrth unrhyw anaf corfforol a meddyliol a'r elfen o waethygu oherwydd, fel y mae'r testun yn ei ddweud, 'enbydrwydd, malais a natur neittuol annerbyniol' yr ymddygiad troseddol.<sup>37</sup>

I'r graddau y mae'n bosibl nodi'r hyn sy'n cael ei ychwanegu ar gyfer gwaethygu o'r fath, mae'r awduron yn awgrymu y gallai fod rhwng 10% ac 20%.<sup>38</sup> Fodd bynnag, mae achosion diweddarach wedi rhybuddio na ddylid dyfarnu iawndal gwaethygedig ar ben iawndal am deimladau a anafwyd sy'n rhan o'r dyfarniad anafiadau. Yn yr achos mwyaf cymaradwy a grybwyllwyd, Appleton yn erbyn Garrett [1997] 8 Medi LR 75, [1996] PIQR P1, cynyddodd barnwr iawndal o 15% a ddyfarnwyd i 8 o gleifion deintyddol a oedd wedi dioddef gor-driniaeth ddifrifol ar ôl cael eu camarwain ynghylch yr hyn a fwriadwyd. Yn fwy diweddar, fodd bynnag, mae'r Llys Apêl wedi rhybuddio yn erbyn trin anaf i deimladau mewn achosion o ymosod yn niwed gwaethygol pan fydd y dyfarniad iawndal yn cynnwys iawndal am deimladau a anafwyd:<sup>39</sup>

**Mae'n briodol ac mae'n rhaid derbyn bod o leiaf mewn achosion o ymosod a chamweddau tebyg, yn briodol gwneud iawn am anaf i deimladau, gan gynnwys yr anurddas, dioddefaint meddyliol, cywilydd neu ofid a allai gael ei achosi gan ymosodiad o'r fath, yn ogystal â dicter neu ddigofaint sy'n codi o amgylchiadau'r ymosodiad. Mae hefyd yn cael ei dderbyn yn glir bellach bod iawndal gwaethygedig yn ei hanfod yn iawndal mewn achosion o ymosodiad. Felly, rydym o'r farn na ddylai llys nodweddu dyfarnu iawndal am anaf i deimladau, gan gynnwys unrhyw anurddas, dioddefaint meddyliol, trallod, cywilydd neu ddicter a chynddaredd a allai gael ei achosi gan ymosodiad o'r fath, yn niwed gwaethygol; dylai llys ystyried yr elfen honno o iawndal am deimladau a anafwyd fel rhan o'r iawndal cyffredinol a ddyfarnwyd. Nid yw'n briodol bellach nodweddu'r dyfarniad am yr iawndal am anafiadau i deimladau fel iawndal gwaethygol, ac eithrio mewn achos cwbl eithriadol o bosibl.<sup>40</sup>**

36 McGregor ar iawndal: pennod 43 adrannau 1 a 2

37 Ibid §43-002. Dylid nodi bod llawer o achosion yn cynnwys cam-drin corfforol fel treisio parhaus, y gellid ei ystyried yn wahanol iawn i'r ystyriaethau sy'n berthnasol yma.

38 Ibid § 43-001

39 Richardson yn erbyn Howie [2004] EWCA 1127 [2005] PIQR Q3 CA

40 Ibid § 23

## Argymhellion

26. Gan gymhwyso'r egwyddorion hyn cystal ag y gallaf, awgrymaf, mewn achosion lle mae'r person heintiedig wedi bod yn destun prosiect ymchwil anfoesegol, y byddai'n briodol ychwanegu swm cymedrol at y tariff dyfarnu ymreolaeth cyffredinol oddeutu £10,000 i bob categori o ddyfarniad ymreolaeth. Er y gallai hyn ymddangos yn hael yn achos y dyfarniad a argymhellir mewn achosion HBV, mae'r sarhad a achosir gan fod yn destun ymchwil yn sicr yr un peth ni waeth beth yw'r clefyd. Er mwyn osgoi amheuaeth, argymhellaf y dylai'r gwelliant hwn fod ar gael i unrhyw berson heintiedig yr oedd ei driniaeth yn rhan o un o'r prosiectau ymchwil anfoesegol a nodwyd yn benodol yn adroddiad yr Ymchwiliad. Awgrymaf y dylid ceisio cytundeb â grwpiau sy'n cynrychioli'r gymuned ynghylch hunaniaeth a dyddiadau prosiectau o'r fath, a sut y gellid gwybod a gymerwyd rhan mewn prosiect o'r fath.

27. Byddwn yn awgrymu ystyried un eithriad i'r ffigwr cyffredinol hwn; sef y gellid dyfarnu ffigwr gwell yn achosion plant a oedd yn destun ymchwil wrth fyw mewn sefydliad, megis Treloar. Mae'n debyg bod y teimladau o anaf wedi eu gwaethygu gan y ffaith fod yr ymchwil nid yn unig yn anfoesegol ar ystyr glinigol, ond hefyd oherwydd ei bod yn torri ymddiriedaeth mewn sefydliad y bwriadwyd iddo fod yn lle diogel. Mewn achosion o'r fath, rwy'n awgrymu y gellid ystyried dyfarniad gwell o £15,000.

Rwy'n pwysleisio mai dim ond fy marn i yw'r rhain, wedi'u llywio gan astudiaeth gryno o'r gyfraith a heb dderbyn unrhyw gyflwyniadau technegol ar y pwnc. Rwy'n ailadrodd - i'r graddau y mae amser yn caniatáu – y dylid ceisio barn y grŵp arbenigol ond hefyd y gymuned heintiedig.

# Dyfarniadau gofal

## Cynnig

Bwriad y dyfarniad hwn yw digolledu pobl sydd wedi'u heintio am eu hanghenion gofal yn y gorffennol ac yn y dyfodol, gan gynnwys cymorth domestig, gofal personol a nyrsio, gan gynnwys gofal lliniarol, diwedd oes. Mae'r argymhellion yn cydnabod y bydd anghenion gofal yn amrywio ar wahanol gyfnodau o brofiad person heintiedig o glefyd fel yr adlewyrchir yn y bandiau difrifoldeb. Fel sy'n digwydd mewn hawliad anafiadau personol yn y llys, gwneir yr hawliad gan y person heintiedig am ddyfarniad i adlewyrchu ei anghenion, ac nid gan unrhyw berthnasau neu eraill sydd wedi darparu gofal neu a fydd yn gwneud hynny yn y dyfodol. Gwneir dyfarniadau llys o'r math hwn yn y disgwyliad y bydd yr hawlydd yn trosglwyddo'r arian ar gyfer gofal yn y gorffennol i'r rhai a ddarparwyd, er bod y modd o orfodi hyn ychydig yn ansicr.

Y dull a argymhellir gan y grŵp arbenigol fu nodi cyfradd fasnachol ar gyfartaledd ledled y DU sy'n cael ei chodi ar hyn o bryd am ofal tebyg. Bwriad eu cynigion yw darparu ar gyfer y gofynion gofal cyfartalog ar gyfer person heintiedig ym mhob band difrifoldeb heintio. Ni ddylid didynnu o ddyfarniadau am daliadau cymorth gofal yn y gorffennol, budd-daliadau DWP, amser yn yr ysbyty neu ofal arall a ariennir gan y wladwriaeth, gan gynhyrchu canlyniad mwy hael nag a allai fod yn wir mewn gweithred anafiadau personol. Mae'r cynigion yn cynnwys tablau manwl o'r gofal oriau amcangyfrifedig sy'n ofynnol ar bob cam, gan amrywio o 6 awr yr wythnos ar gyfer gofal domestiga chymorth lleiaf posibl i 24 awr, 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer gofal diwedd oes.

Cynigir defnyddio gostyngiad o 25% i'r cyfrifiad ar gyfer gofal yn y gorffennol i adlewyrchu'r ffaith na fydd rhaid iddynt orfod talu treth ar y swm a dderbynnir pan ddarperir gofal yn rhad ac am ddim, nid oes ganddynt unrhyw gymwysterau proffesiynol o reidrwydd, ac, os ydynt yn byw gyda'r person sydd wedi'i anafu, ni fydd yn rhaid iddynt deithio i'r gwaith. Ni chynigir gostyngiad o'r fath mewn perthynas â gofal yn y dyfodol fel bod derbynwyr yn rhydd i dalu am ofal os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Nid yw'n gwbl glir sut mae hyn yn gweithio drwodd i gyfrifo dyfarniad cyffredinol ar gyfer gofal sy'n cwmpasu gofal yn y gorffennol a'r dyfodol heb gyfeirio'n benodol at yr union adeg y gwneir yr asesiad.

Byddai dyfarniad craidd yn cael ei wneud ar gyfer costau gofal yn seiliedig ar y dull hwn o gyfrifo heb fod angen unrhyw dystiolaeth o angen gofal, y tu hwnt i'r hyn yr oedd ei angen i wybod y cymhwysedd perthnasol yn berson heintiedig. Fodd bynnag, mae'r argymhellion yn derbyn y gallai fod achosion lle mae anghenion neu gostau gofal unigolyn wedi, neu y byddant yn uwch na'r rhai a dybir yn y cyfrifiadau cyfartalog hyn. Awgrymir, mewn achos o'r fath, y gellid gwneud cais am ddyfarniad atodol y byddai angen ei gefnogi gan dystiolaeth ['dogfennaeth ychwanegol'].

Mae'r union ffordd y cyfrifir y dyfarniad gofal ar achos unigol yn dibynnu ar ddewis o fand difrifoldeb. Cyflwynir hefyd nad yw'r rhagdybiaethau yn arsylwi y gall gofynion gofal fod yn sylweddol ar ddechrau haint yn ogystal ag yn ddiweddarach yn ei gynnydd.

Dylai'r cyntaf o'r pryderon hyn allu cael sylw gan esboniad manylach o sut mae ffactorau hyd pob band difrifoldeb yn berthnasol. Gellid cydnabod yr ail bryder trwy gais atodol, ond byddai'n rhaid ystyried bod y dyfarniad yn cael ei wneud ar y dybiaeth y bydd angen yr oriau tybiedig neu wahanol lefelau gofal dros oes yr ymgeisydd, heb dybio o reidrwydd y bydd eu hangen yn nhrefn linol difrifoldeb cynyddol.

## Cymhariaeth â hawliad mewn achos o anaf personol yn y llys

Mae'r fframwaith ar gyfer digolledu person sydd wedi'i anafu am yr angen am ofal pan fo hynny wedi'i ddarparu gan deulu neu ffrindiau am ddim yn destun llinell helaeth o gyfraith achosion. Mae mwy nag un ffordd y gallai'r llys gyfrifo'r dyfarniad.

Lle talwyd am ofal mewn gwirionedd, bydd y llys fel arfer yn dyfarnu'r costau gwirioneddol, ar yr amod bod hynny'n rhesymol o ystyried natur anghenion y person a anafwyd. Os yw'r gofal wedi cael ei ddarparu'n rhad ac am ddim gan berson nad yw wedi rhoi'r gorau i waith cyflogedig, bydd y llys yn ystyried tystiolaeth o'r gost fasnachol o ddarparu'r gofal cyfatebol, heb ganran, mewn perthynas â gofal yn y gorffennol, i adlewyrchu'r materion y cyfeirir atynt uchod. Y dull hwn sydd wedi bod yn fan cychwyn argymhelliad y grŵp arbenigol a chynnig y Llywodraeth. Mae'n bwysig myfyrio, fodd bynnag, nad oes gostyngiad canrannol 'confensiynol', a fydd yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Mae adolygiad diweddar o'r gostyngiadau a ddefnyddiwyd mewn achosion wedi awgrymu bod yr amrediad rhwng 0% a 33%, a bod pob achos yn dibynnu ar ei ffeithiau.<sup>41</sup>

Yn yr achos a ddyfynnir, dywedwyd bod y ffactorau dan sylw yn cynnwys:<sup>42</sup>

- Ni fydd treth ac yswiriant gwladol yn cael eu didynnu.
- Bydd pwysau a chymhlethdod y gofal a roddir yn amrywio rhwng achosion.
- Gall yr amseroedd y darperir y gofal amrywio o ganol wythnos yn ystod y dydd i ofal 24 awr gan gynnwys deffro gofal nos ac ar benwythnosau.
- Efallai y bydd galwadau eraill ar amser y darparwr gofal y mae'n rhaid ei ymgorffori'n anghyfleus yn yr amserlen.
- Mae'n bosibl y bu'n rhaid i'r gofalwr roi'r gorau i incwm o waith cyflogedig.
- Os yw'r gofalwr yn rhiant neu'n bartner, mae'n debygol y bydd lefel o ofal a chymorth a fyddai wedi'i ddarparu beth bynnag pe na bai anaf.

Yn yr adolygiad hwn, penderfynodd y barnwr beidio â didynnu ar ôl edrych ar realiti'r gofal a ddarparwyd a'r ffeithiau ei fod yn llawer uwch na natur gyffredinol y gwaith y mae gweithiwr cymorth gofal wedi ei seilio arni – y radd yr hawliwyd y cyfraddau arni. Gan y gall disgrifiad y barnwr o'r gwahaniaethau hynny atseinio gyda rhai o'r gofalwyr y bydd eu hawliadau yn cael eu hystyried o dan y cynllun, rwy'n atodi darn o'r dyfarniad ar ôl yr adran hon.

Bydd achosion lle mae'r darparwr gofal, partner fel arfer, wedi rhoi'r gorau i waith sy'n talu'n dda i ddarparu gofal. Gall y cyflog a gollwyd fod yn sylweddol uwch na chost fasnachol gofal. Mae'r prif achos o ran dyfarnu iawndal am ofal a ddarparwyd yn rhad ac am ddim yn awgrymu mai uchafswm yr hyn y gellir ei ddyfarnu yw'r gost fasnachol o ddarparu gofal tebyg.<sup>43</sup>

41 CCC yn erbyn Sheffield Teaching Hospitals NHS Foundation Trust [2023] EWHC 1770 (KB), [2024] 1 WLR 1307, Ritchie J §134

42 Ibid §146

43 Housecroft yn erbyn Burnett [1985] EWCA Civ 18; [1986] 1 All ER 322 CA

Fodd bynnag, mae'r prif werslyfr ar iawndal yn awgrymu nad yw hon yn rheol ddieithriad, ac nad yw'n sefyll yn hawdd ochr yn ochr ag egwyddorion lliniaru difrod sy'n caniatáu adennill costau cynyddol lle mae'n rhesymol eu hysgwyddo i leddfu dioddefaint: er enghraifft, lle mae'n rhesymol derbyn gofal partner cariadus, yn hytrach na gofalwr anhysbys. Dadleuir, pe bai rhoi'r gorau i weithio i ofalu yn rhesymol o dan yr amgylchiadau, y gellid caniatáu adennill enillion a gollwyd. Felly, mae rhywfaint o ansicrwydd cyfreithiol ynglŷn â'r mater hwn.

## Sylwadau trosfwaol ar y cynnig

Nodaf fod yr ymatebion i arolwg un sefydliad yn dangos cefnogaeth fwyafrifol o 40% o blaid, 20% yn erbyn [28% ddim yn gwybod] ar gyfer y dyfarniad gofal mewn perthynas â pherson heintiedig sydd wedi marw i'w dalu'n uniongyrchol i'r bobl yr effeithiwyd arnynt ar gais gweinyddwr yr ystâd.<sup>44</sup> Mae hwn yn opsiwn o dan y cynnig.

O ystyried y rheol gyffredinol a'r arfer mewn hawliadau anafiadau, hyd yma o leiaf, nid yw'n ymddangos bod dull cyffredinol y grŵp arbenigol yn afresymol o dan bedwar cymhwyster

- Nid yw'r cyfraddau go iawn fesul awr a fabwysiadwyd wedi'u nodi yn y cynnig, er y gallai fod yn bosibl eu casglu trwy rannu'r symiau blynyddol a grybwyllir â chyfanswm blynyddol o oriau. Nid oes disgrifiad o'r union radd gofalwr neu nyrs a gymerir fel y cymharydd, ond nodaf fod cyfeiriad yn cael ei wneud at 'gymorth domestig' a 'gofal personol'. Nid wyf yn siŵr y byddai cyfraddau o'r fath o reidrwydd yn ddigonol i adlewyrchu gofal a allai, mewn rhai achosion, fod yn well i ofal nyrsio, yn enwedig yn ystod cyfnodau o analluogrwydd difrifol a salwch. Nid oes esboniad am y ddibyniaeth ar ba gyfraddau bynnag a ddefnyddiwyd. Er y gallai cyfraddau

gofal domestig a phersonol – os mai dyna sydd wedi cael ei ddefnyddio - fod yn briodol yn gyffredinol, gall olygu y bydd angen hawliadau llwybrau atodol pan fydd y gofal sydd ei angen yn mynd y tu hwnt i ofal sylfaenol, ac y gellid ei adlewyrchu'n well gan raddfa uwch o gostau, megis ar gyfer gofal nyrsio cymwysedig, neu'n golygu llawer mwy o oriau y dydd.

## Argymhelliad

28. Byddai o gymorth sylweddol i'r Awdurdod wrth asesu hawliadau atodol i gael disgrifiad manylach o'r math o ofal y bwriedir ei gwmpasu gan y dull craidd arfaethedig. Mae risg, na allaf ei meintoli, o nifer fawr o hawliadau atodol o'r math hwn, y gellid mynd i'r afael â hwy yn well trwy lunio dyfarniad craidd mwy hael.

  - Dan y gyfraith fel y mae, nid yw'n afresymol cyfyngu hawliadau craidd i gost fasnachol gofal tebyg, a pheidio â chaniatáu hawliadau atodol yn seiliedig ar enillion a gollwyd

## Argymhelliad

29. Gellid egluro y gellid gwneud hawliad atodol mewn perthynas ag anghenion gofal eithriadol er mwyn lleihau neu ddileu'r gostyngiad arfaethedig.

  - Os yw'r costau masnachol o ddarparu gofal cymharol i gael eu defnyddio ar gyfer y dyfarniad mewn perthynas a gofal yn y dyfodol, mae'n iawn na ddylai fod unrhyw dsidyniad i dreth ac ati ar gyfer yr elfen honno o'r dyfarniad. Dylai'r person heintiedig fod â'r hawl i ryddhau eu hanwyliaid o feichiau'r gorffennol ac, felly, dylai fod yn rhydd i gymnryd lle hynny â gofalwyr cyflogedig. Byddai hefyd yn realistig ychwanegu elfen ar

<sup>44</sup> Nodaf, yn nes ymlaen yng nghyflwyniadau'r Gymdeithas, eu bod yn dadlau y dylai unigolion yr effeithiwyd arnynt allu gwneud eu cais eu hunain am ddyfarniad gofal. Am y rhesymau isod, anghytunaf.

gyfer y ffaith ei bod yn debyg y byddai'n rhaid i'r rhan fwyaf o dderbynwyr gael mynediad at y gofal a ddarperir drwy asiantaethau sy'n codi comisiwn am eu gwasanaethau.

### Argymhelliad

30. Dylid gofyn i'r grŵp arbenigol nodi'r cyfraddau priodol ar gyfer digolledu am daliadau asiantaeth.
- Er mwyn i'r dyfarniad adlewyrchu cost gwirioneddol gofal mewn achosion o'r math hwn mor agos a phosibl, lle maen nhw'n cael eu dyfarnu trwy daliadau cyfodnol, dylai'r uwchraddio ar gyfer chwyddiant fod trwy gyfeirio at yr Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion [ASHE] Tabl 26 (gweithwyr gofal a gofalywyr cartref) [ASHE 6115 gynt],<sup>45</sup> yn hytrach na thrwy fynegai manwerthu neu bris defnyddwyr fel y mae'n ymarfer seiliedig mewn llysoedd: gweler Thompstone yn erbyn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Aciwt Tameside a Glossop<sup>46</sup> a Public Guardian yn erbyn CC<sup>47</sup>.

### Argymhelliad

31. Rwy'n argymhell bod mynegai cyfeirio yn cael ei newid yn unol â hynny.
- Er y gallai fod ymhlyg yn y cynnig, lle mae person heintiedig wedi talu am ofal yn y gorffennol sy'n fwy na'r swm a gyrhaeddwyd gan fformiwla y llwybr craidd, dylid caniatáu i hawliad llwybr atodol adennill y gost hon i'r graddau bod y gost a dynnwyd yn rhesymol o dan amgylchiadau'r achos.

### Argymhelliad

32. Argymhellaf y dylid caniatáu cost go iawn gofal y talwyd amdano, os yw'n rhesymol.
